# Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

**2008 mccc 2**

Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud darpariaeth ynghylch teithio gan bersonau sy'n cael addysg gynradd, addysg uwchradd neu addysg bellach neu hyfforddiant i ysgolion neu i fannau eraill lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant, ac oddi yno; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Mae'r Mesur hwn, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Medi 2008 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor ar 10 Rhagfyr 2008, yn deddfu'r darpariaethau a ganlyn:–**

*Prif dermau*

## 1 Y prif dermau a ddefnyddir yn y Mesur hwn

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Mesur hwn.

(2) Trefniadau teithio, ni waeth beth fo'r disgrifiad ohonynt, yw "trefniadau teithio" ac maent yn cynnwys—

(a) darparu cludiant;

(b) darparu un person neu fwy i hebrwng plentyn pan fydd yn teithio;

(c) talu'r cyfan neu unrhyw ran o dreuliau teithio rhesymol person;

(d) talu lwfansau mewn cysylltiad â defnyddio dulliau teithio penodol.

(3) Ystyr "dysgwyr" yw personau sy'n cael addysg neu hyfforddiant.

(4) Mae "mannau perthnasol" fel a ganlyn—

(a) ysgolion a gynhelir;

(b) sefydliadau yn y sector addysg bellach;

(c) ysgolion annibynnol a enwir mewn **[**[F1]datganiadau a gedwir o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56)**][**[F1]cynlluniau datblygu unigol a gynhelir o dan

adran 14 neu 19 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** ;

(d) ysgolion arbennig nas cynhelir;

(e) unedau cyfeirio disgyblion;

(f) mannau ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion lle y trefnir addysg o dan adran **[**[F2] 19(1)**][**[F2] 19A(1)**]** o Ddeddf Addysg 1996;

(g) mannau lle y darperir addysg neu hyfforddiant a gyllidir gan Weinidogion Cymru o dan adran 34(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21);

(h) **[**[F3] sefydliadau lle y sicrhawyd addysg a hyfforddiant a llety byrddio gan Weinidogion Cymru o dan adran 41 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000;**]**

**[**[F3] sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol o fewn yr ystyr a roddir gan adran 56 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a enwir mewn cynlluniau datblygu unigol a gynhelir o dan adran 14 neu 19 o'r Ddeddf honno;**]**

(i) mannau lle y darperir addysg feithrin—

(i) gan awdurdod lleol, neu

(ii) gan unrhyw berson arall sy'n cael cymorth ariannol a roddir gan awdurdod lleol o dan drefniadau a wneir gan awdurdod lleol yn unol â'r ddyletswydd a osodir gan adran 118 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31);

(j) mannau lle yr ymgymerir â phrofiad gwaith.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 1(4)(c) wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(2)(a)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2)

**F2** Gair yn a. 1(4)(f) wedi ei amnewid (1.9.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2023 at ddibenion penodedig) gan Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022 (O.S. 2022/744), rhl. 1(3), **Atod. 2 para. 10**

**F3** A. 1(4)(h) wedi ei amnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(2)(b)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 1(1)-(3)(4)(a)-(i) mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

**I3** A. 1(4)(j) mewn grym ar 30.10.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(1)(a)**

*Trefniadau teithio i ddysgwyr*

## 2 Dyletswydd i asesu anghenion teithio dysgwyr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â—

(a) dysgwyr nad ydynt eto'n 19 oed;

(b) dysgwyr sydd wedi cyrraedd 19 oed ac sydd wedi cychwyn ar gwrs addysg neu hyfforddiant cyn cyrraedd yr oedran hwnnw ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw;

(c) y cyfryw ddysgwyr eraill ag a ragnodir.

(2) Ym mhob blwyddyn academaidd, rhaid i awdurdod lleol asesu anghenion teithio dysgwyr ei ardal ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol. Ond mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 5.

(3) At ddibenion is-adran (2), anghenion dysgwyr sy'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod am gael trefniadau teithio addas bob dydd i'r mannau perthnasol lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno yw “anghenion teithio dysgwyr” ardal awdurdod lleol.

(4) Wrth wneud asesiad o dan is-adran (2) rhaid i awdurdod lleol roi sylw yn benodol i—

- (a) anghenion dysgwyr sy'n bersonau anabl,
- (b) anghenion dysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu,
- (c) anghenion dysgwyr sy'n blant ac sy'n derbyn gofal, neu a fu gynt yn derbyn gofal, gan awdurdod lleol,
- (d) oed dysgwyr, ac
- (e) natur y ffyrdd y gellid yn rhesymol ddisgwyl i ddysgwyr eu dilyn i'r mannau perthnasol lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I5** A. 2 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

## 3 Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau cludo

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â phlentyn o oedran ysgol gorfodol—

- (a) os yw'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol,
- (b) os yw'r amgylchiadau a nodir mewn cofnod yng ngholofn 1 y tabl canlynol yn gymwys i'r plentyn, ac
- (c) os bodlonir yr amod, neu'r holl amodau, a nodir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 y tabl mewn perthynas â'r plentyn.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau cludo addas i hwyluso'r ffordd i'r plentyn fynychu bob dydd y mannau perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant. Ond mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 5.

TABL

| **Colofn 1**<br>**Amgylchiadau** | **Colofn 2**<br>**Amod(au)** |
|---|---|
| Mae'r plentyn yn cael addysg gynradd mewn—<br>(a) ysgol a gynhelir,<br>(b) uned cyfeirio disgyblion,<br>(c) ysgol annibynnol [F4a enwir mewn datganiad a gedwir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996][F4neu sefydliad arall a enwir mewn | (a) Mae'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn man sydd 2 filltir (3.218688 o gilometrau) neu fwy o'r ysgol neu'r uned.<br>(b) Nid oes trefniadau wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol i alluogi'r plentyn i ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn— |

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

| Colofn 1<br>Amgylchiadau | Colofn 2<br>Amod(au) |
|---|---|
| cynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran 14 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** , neu<br>(d) ysgol arbennig nas cynhelir,<br>lle y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig. | (i) ysgol a gynhelir sy'n ysgol addas,<br>(ii) uned cyfeirio disgyblion sy'n uned addas,<br>(iii) ysgol annibynnol **[**[F5]a enwir mewn datganiad a gedwir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996**][**[F5]neu sefydliad arall a enwir mewn cynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran 14 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** , neu<br>(iv) ysgol arbennig nas cynhelir sy'n ysgol addas,<br>ac sy'n nes at y man lle y mae'r plentyn yn preswylio fel arfer.<br>(c) Nid oes trefniadau wedi eu gwneud gan yr awrdurdod lleol ar gyfer llety byrddio addas i'r plentyn yn yr ysgol neu'r uned neu'n agos at yr ysgol neu'r uned. |
| Mae'r plentyn yn cael addysg uwchradd mewn—<br>(a) ysgol a gynhelir,<br>(b) uned cyfeirio disgyblion,<br>(c) ysgol annibynnol **[**[F4]a enwir mewn datganiad a gedwir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996**][**[F4]neu sefydliad arall a enwir mewn cynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran 14 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** , neu<br>(d) ysgol arbennig nas cynhelir,<br>lle y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig. | (a) Mae'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn man sydd 3 milltir (4.828032 o gilometrau) neu fwy o'r ysgol neu'r uned.<br>(b) Nid oes trefniadau wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol i alluogi'r plentyn i ddod yn ddisgybl cofrestredig mewn—<br>(i) ysgol a gynhelir sy'n ysgol addas,<br>(ii) uned cyfeirio disgyblion sy'n uned addas,<br>(iii) ysgol annibynnol **[**[F5]a enwir mewn datganiad a gedwir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996**][**[F5]neu sefydliad arall a enwir mewn cynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran 14 |

| **Colofn 1**<br>**Amgylchiadau** | **Colofn 2**<br>**Amod(au)** |
|---|---|
| | o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018] , neu<br>(iv) ysgol arbennig nas cynhelir sy'n ysgol addas,<br>ac sy'n nes at y man lle y mae'r plentyn yn preswylio fel arfer.<br>(c) Nid oes trefniadau wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol ar gyfer llety byrddio addas i'r plentyn yn yr ysgol neu'r uned neu'n agos at yr ysgol neu'r uned. |
| Mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant mewn sefydliad yn y sector addysg bellach lle y mae'r plentyn wedi ymrestru fel myfyriwr llawnamser. | (a) Mae'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn man sydd 3 milltir (4.828032 o gilometrau) neu fwy o'r sefydliad.<br>(b) Nid oes trefniadau wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol i alluogi'r plentyn i ymrestru mewn sefydliad addas sy'n nes at y man lle y mae'r plentyn yn preswylio fel arfer. |
| Mae'r plentyn—<br>(a) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, a<br>(b) yn cael addysg uwchradd mewn man perthnasol ac eithrio'r ysgol honno.<br>Addysg sydd wedi ei threfnu gan y canlynol yw'r addysg uwchradd y cyfeirir ati ym mharagraff (b)—<br>(i) gan yr awdurdod lleol, neu<br>(ii) gan gorff llywodraethu yr ysgol lle y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig, neu ar ran y corff llywodraethu. | Mae'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn man sydd 3 milltir (4.828032 o gilometrau) neu fwy o'r man perthnasol. |
| Mae'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ac mae'n cael addysg gynradd mewn—<br>(a) ysgol a gynhelir,<br>(b) uned cyfeirio disgyblion,<br>(c) ysgol annibynnol **[**[F6]a enwir mewn datganiad a gedwir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996**][**[F6]neu sefydliad arall a enwir mewn cynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran | Mae'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn man sydd 2 filltir (3.218688 o gilometrau) neu fwy o'r ysgol neu'r uned. |

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

| **Colofn 1**<br>**Amgylchiadau** | **Colofn 2**<br>**Amod(au)** |
|---|---|
| 19 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** , neu<br>(d) ysgol arbennig nas cynhelir,<br>lle y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig. | |
| Mae'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ac mae'n cael addysg uwchradd mewn—<br>(a) ysgol a gynhelir,<br>(b) uned cyfeirio disgyblion,<br>(c) ysgol annibynnol **[**[F6]a enwir mewn datganiad a gedwir mewn cysylltiad â'r plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996**][**[F6]neu sefydliad arall a enwir mewn cynllun datblygu unigol a gynhelir ar gyfer y plentyn o dan adran 19 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**]** , neu<br>(d) ysgol arbennig nas cynhelir,<br>lle y mae'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig. | Mae'r plentyn fel arfer yn preswylio mewn man sydd 3 milltir (4.828032 o gilometrau) neu fwy o'r ysgol neu'r uned. |

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol beidio â chodi tâl ar blentyn neu riant sy'n unigolyn am unrhyw drefniadau cludo a wneir yn unol â'r adran hon.

(4) Caiff trefniadau cludo a wneir yn unol â'r adran hon gynnwys—
(a) darparu cludiant;
(b) talu'r cyfan, ond nid rhan, o dreuliau cludo plentyn.

(5) At ddibenion is-adran (2), nid yw trefniadau cludo'n addas—
(a) os ydynt yn peri lefelau afresymol o straen i'r plentyn,
(b) os ydynt yn cymryd amser afresymol o hir, neu
(c) os nad ydynt yn ddiogel.

(6) At ddibenion pob paragraff (b) yn ail golofn y tabl yn yr adran hon, mae'r ysgol, yr uned neu'r sefydliad yn addas i'r plentyn os yw'r addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir yno yn addas, o ystyried oed, gallu a doniau'r plentyn ac unrhyw anawsterau dysgu a all fod ganddo.

(7) Mae'r pellteroedd a grybwyllir yng ngholofn 2 y tabl yn yr adran hon i'w mesur ar hyd y ffordd fyrraf sydd ar gael.

(8) Mae ffordd "ar gael" at ddibenion is-adran (7)—
(a) os yw'n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, neu
(b) os yw'n ddiogel i'r cyfryw blentyn gerdded y ffordd gyda hebryngwr, pe byddai oed y plentyn yn galw am ddarparu hebryngwr.

(9) Caiff rheoliadau bennu amgylchiadau ac amodau at ddibenion paragraffau (b) ac (c) o is-adran (1); caiff y cyfryw reoliadau ddiwygio'r tabl neu ddiwygio is-adrannau (6), (7) ac (8) (gan gynnwys diddymu cofnod yn y tabl neu yn yr is-adrannau hynny).

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Geiriau yn a. 3 wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(3)(a)(i)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (as diwygio gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (as diwygio gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (as diwygio gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**F5** Geiriau yn a. 3 wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(3)(b)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (as diwygio gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (as diwygio gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (as diwygio gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**F6** Geiriau yn a. 3 wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(3)(a)(ii)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (as diwygio gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (as diwygio gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (as diwygio gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I7** A. 3 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 4 Dyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau teithio eraill

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â phlentyn o oedran ysgol gorfodol—

(a) os yw'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant mewn man perthnasol,

(b) os yw'r plentyn yn preswylio fel arfer mewn ardal awdurdod lleol, ac

(c) os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod angen trefniadau teithio er mwyn hwyluso'r ffordd i'r plentyn fynychu bob dydd y man perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau teithio addas i hwyluso'r ffordd i'r plentyn fynychu bob dydd y mannau perthnasol lle y mae'r plentyn yn cael addysg neu hyfforddiant. Ond mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 5.

(3) Rhaid i awdurdod lleol beidio â chodi tâl ar blentyn neu riant sy'n unigolyn am unrhyw drefniadau teithio a wneir yn unol ag is-adran (2).

(4) Caiff trefniadau teithio a wneir yn unol ag is-adran (2) gynnwys talu'r cyfan, ond nid rhan, o dreuliau teithio plentyn.

(5) Wrth ystyried a yw trefniadau teithio yn addas at ddibenion yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw'n benodol—
  (a) i'r asesiad a wneir ganddo yn unol ag adran 2(2);
  (b) i'r trefniadau cludo y mae dyletswydd arno i'w gwneud ar gyfer y plentyn o dan adran 3;
  (c) i oed y plentyn;
  (d) i unrhyw anabledd neu anhawster dysgu sydd gan y plentyn;
  (e) i natur y ffyrdd y gellid yn rhesymol ddisgwyl i'r plentyn eu dilyn.

(6) At ddibenion yr adran hon nid yw trefniadau teithio'n addas—
  (a) os ydynt yn peri lefelau afresymol o straen i'r plentyn,
  (b) os ydynt yn cymryd amser afresymol o hir, neu
  (c) os nad ydynt yn ddiogel.

(7) Wrth ystyried a yw trefniadau teithio'n angenrheidiol at ddibenion yr adran hon—
  (a) rhaid i awdurdod lleol roi sylw'n benodol i'r materion a bennir yn is-adran (5);
  (b) caiff awdurdod lleol roi sylw'n benodol i ba un a yw'r plentyn yn mynychu'r man perthnasol addas agosaf at fan preswyl arferol y plentyn ai peidio.

(8) Mae is-adran (7)(b) yn gymwys—
  (a) os nad yw'r plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, a
  (b) os yw trefniadau wedi eu gwneud gan yr awdurdod lleol i alluogi'r plentyn i fynychu man perthnasol addas sy'n nes at fan preswyl arferol y plentyn.

(9) At ddibenion yr adran hon, mae man perthnasol yn addas i blentyn os yw'r addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir yno yn addas, o ystyried oed, gallu a doniau'r plentyn ac unrhyw anawsterau dysgu a all fod ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** A. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I9** A. 4 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 5 Terfynau dyletswyddau sy'n ymwneud â theithio gan ddysgwyr

Nid yw adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i asesu anghenion teithio dysgwyr ac nid yw adrannau 3 a 4 yn ei gwneud yn ofynnol i wneud trefniadau teithio—
  (a) er mwyn i ddysgwyr deithio yn ystod y dydd rhwng mannau perthnasol neu rhwng gwahanol safleoedd yr un sefydliad, neu
  (b) at unrhyw ddiben ac eithrio mynychu man perthnasol i gael addysg neu hyfforddiant.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** A. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I11** A. 5 mewn grym ar 6.3.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**
**I12** A. 5 mewn grym ar 1.9.2009 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 6 Pŵer awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio i ddysgwyr

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â dysgwr—
(a) os yw'r dysgwr yn preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, neu
(b) os yw'r dysgwr yn cael addysg neu hyfforddiant yn ardal yr awdurdod lleol.

(2) Caiff yr awdurdod lleol wneud trefniadau teithio i hwyluso'r ffordd i'r dysgwr fynychu man lle y mae'r person hwnnw'n cael addysg neu hyfforddiant.

(3) Caiff awdurdod lleol godi tâl am drefniadau teithio a wneir o dan yr adran hon ar gyfer disgyblion cofrestredig o oedran ysgol gorfodol yn unol â darpariaethau adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996.

(4) Caiff awdurdod lleol godi tâl am drefniadau teithio a wneir o dan yr adran hon ar gyfer dysgwyr eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** A. 6 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I14** A. 6 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

## 7 Trefniadau teithio i ddysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â dysgwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru a'r rheini —
(a) yn ddysgwyr—
(i) sydd dros oedran ysgol gorfodol ond heb fod eto'n 19 oed, neu
(ii) sydd wedi cyrraedd 19 oed ac wedi cychwyn ar gwrs addysg neu hyfforddiant penodol cyn cyrraedd yr oedran hwnnw ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw; a
(b) yn ddysgwyr sy'n cael addysg neu hyfforddiant—
(i) mewn man yng Nghymru, neu
(ii) a gyllidir gan Weinidogion Cymru mewn man y tu allan i Gymru.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch trefniadau teithio i ddysgwyr i'r mannau lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno.

(3) Caiff y rheoliadau yn benodol—
(a) rhoi pwerau i'r canlynol neu osod dyletswyddau arnynt—
(i) Gweinidogion Cymru;
(ii) awdurdodau lleol;
(iii) sefydliadau yn y sector addysg bellach;

(b) pennu'r mathau o fan y caniateir, neu y mae'n rhaid, gwneud trefniadau teithio i fynd yno ac oddi yno;
(c) pennu'r trefniadau teithio y caniateir, neu y mae'n rhaid, eu gwneud;
(d) pennu'r materion y mae'n rhaid rhoi ystyriaeth iddynt wrth wneud penderfyniadau am drefniadau teithio;
(e) gwneud darpariaeth ynghylch codi tâl;
(f) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y mae'n rhesymol bod ei hangen neu ei angen ar unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r person arall o dan y rheoliadau;
(g) gwneud darpariaeth ynghylch y safonau ymddygiad y mae'n ofynnol i ddysgwyr eu harddel tra byddant yn teithio i'r mannau lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant neu o'r mannau hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I15** A. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I16** A. 7 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 8 Trefniadau teithio i fan lle y darperir addysg feithrin ac oddi yno

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch trefniadau teithio i blant o dan oedran ysgol gorfodol i'r mannau lle y maent yn cael addysg feithrin ac oddi yno.

(2) Caiff y rheoliadau'n benodol—
(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau teithio;
(b) caniata[acute]u i awdurdod lleol wneud trefniadau teithio;
(c) pennu'r mathau o fan y caniateir gwneud, neu y mae'n rhaid gwneud, trefniadau teithio yno ac oddi yno;
(d) pennu'r trefniadau teithio y caniateir, neu y mae'n rhaid, eu gwneud;
(e) pennu'r materion y mae'n rhaid eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am drefniadau teithio;
(f) gwneud darpariaeth ynghylch codi tâl;
(g) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y mae'n rhesymol bod ei hangen neu ei angen ar yr awdurdod lleol mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod o dan y rheoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I17** A. 8 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I18** A. 8 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 9 Trefniadau teithio i ddysgwyr a'r rheini'n drefniadau nad ydynt i ffafrio mathau penodol o addysg neu hyfforddiant

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os gwneir trefniadau o dan adran 3, adran 4 neu adran 6 mewn cysylltiad â dysgwyr o fath a ddisgrifir mewn cofnod yng ngholofn 1 y tabl a ganlyn.

(2) Rhaid gwneud trefniadau hefyd yn unol â'r adrannau hynny mewn cysylltiad â'r dysgwyr o fath a ddisgrifir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 y tabl.

(3) Rhaid i'r trefniadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) beidio â bod yn llai ffafriol na'r trefniadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

TABL

| Colofn 1 | Colofn 2 |
|---|---|
| Plant o oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn ysgolion a gynhelir. | Plant yr un oed sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn mannau perthnasol eraill. |
| Dysgwyr sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ac sy'n cael addysg lawnamser neu hyfforddiant llawnamser mewn ysgolion a gynhelir. | Dysgwyr yr un oed sy'n cael addysg lawnamser neu hyfforddiant llawnamser mewn mannau perthnasol eraill. |
| Dysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn ysgolion a gynhelir. | Dysgwyr yr un oed a chanddynt anawsterau dysgu sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn mannau perthnasol eraill. |
| Dysgwyr a chanddynt anabledd sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn ysgolion a gynhelir. | Dysgwyr yr un oed a chanddynt anabledd sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn mannau perthnasol eraill. |
| Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn ysgolion a gynhelir. | Plant yr un oed sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ac sy'n cael addysg neu hyfforddiant mewn mannau perthnasol eraill. |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** A. 9 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I20** A. 9 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

*Hybu mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg*

### 10 Hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg

Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** A. 10 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I22** A. 10 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

*Dulliau teithio cynaliadwy*

### 11 Dulliau teithio cynaliadwy

(1) Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

(2) Dulliau teithio yw "dulliau teithio cynaliadwy" y mae'r awdurdod neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) o'r farn eu bod yn ddulliau a all wella'r naill beth a ganlyn neu'r llall neu'r naill beth a ganlyn a'r llall sef—

(a) llesiant corfforol y rhai sy'n eu defnyddio;

(b) llesiant amgylchedd—

(i) ardal gyfan yr awdurdod lleol neu ran ohoni, yn achos awdurdod, neu

(ii) Cymru gyfan neu ran ohoni, yn achos Gweinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** A. 11 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I24** A. 11 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

*Cod ymddygiad wrth deithio*

### 12 Cod ymddygiad wrth deithio

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio cod ymddygiad wrth deithio.

(2) Cod yw cod ymddygiad wrth deithio sy'n nodi'r safonau ymddygiad y mae'n ofynnol i ddysgwyr y mae is-adran (3) yn gymwys iddynt eu harddel tra byddant yn teithio i'r mannau perthnasol lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant ac oddi yno (pa un a ydynt yn manteisio ar drefniadau teithio a wneir gan awdurdod lleol ai peidio).

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) i ddysgwyr nad ydynt eto'n 19 oed;

(b) i ddysgwr sydd wedi cyrraedd 19 oed ac wedi cychwyn ar gwrs addysg neu hyfforddiant cyn cyrraedd yr oedran hwnnw ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw;

(c) i'r cyfryw ddysgwyr eraill ag a ragnodir.

(4) O bryd i'w gilydd, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r cod ymddygiad wrth deithio.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cod.

(6) Cyn llunio cod neu ei adolygu rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag y maent o'r farn eu bod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** A. 12 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I26** A. 12 mewn grym ar 30.10.2009 gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(1)(b)**

## 13 Gorfodi cod ymddygiad wrth deithio: disgyblion mewn ysgolion perthnasol

(1) Diwygir adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2), ar ôl "The head teacher" mewnosoder "of a relevant school in England".

(3) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) The head teacher of a relevant school in Wales must in determining such measures—

(a) act in accordance with the current statement made by the governing body under section 88(2)(a),

(b) have regard to any notification or guidance given to him under section 88(2)(b), and

(c) require pupils at the school to comply with the travel behaviour code made by the Welsh Ministers under section 12 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008."

(4) Yn is-adran (3) yn lle "The" rhodder "In relation to a relevant school in England, the".

(5) Ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) In relation to a relevant school in Wales, the standard of behaviour which is to be regarded as acceptable must be determined by the head teacher, so far as it is not determined by—

(a) the governing body, or

(b) the Welsh Ministers."

(6) Yn is-adran (5), ar ôl "head teacher" mewnosoder "of a relevant school in England".

(7) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) The measures which the head teacher of a relevant school in Wales determines under subsection (1) may, to such extent as is reasonable and not required by subsection (2A)(c), include measures to be taken with a view to regulating the conduct of pupils at a time when they are not on the premises of the school and are not under the lawful control or charge of a member of the staff of the school."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** A. 13 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I28** A. 13 mewn grym ar 4.1.2010 gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(2)(a)**

**I29** A. 13 mewn grym ar 4.1.2010 gan O.S. 2009/371, **ergl. 2(2)(a)**

## 14 Gorfodi cod ymddygiad wrth deithio: tynnu'n ôl drefniadau teithio

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i ddysgwyr y gwneir trefniadau teithio ar eu cyfer o dan adran 3 neu 4.

(2) Caiff yr awdurdod lleol dynnu'n ôl drefniadau teithio a wnaed ar gyfer dysgwr—

(a) os yw'r awdurdod yn fodlon bod y dysgwr wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio a wnaed o dan adran 12, a

(b) os bodlonir yr amodau canlynol sy'n gymwys i'r dysgwr.

(3) Mae'r chwe amod canlynol i gyd yn gymwys i unrhyw ddysgwr sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol berthnasol.

(4) Mae'r cyntaf, y trydydd a'r pedwerydd o'r amodau canlynol yn gymwys i unrhyw ddysgwr nad yw'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol berthnasol.

(5) Yr amod cyntaf yw, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud i dynnu'n ôl drefniadau teithio—

(a) bod cyfle'n cael ei roi i'r dysgwr ac i riant y dysgwr i wneud sylwadau, a

(b) bod yr awdurdod lleol yn ystyried y sylwadau hynny.

(6) Yr ail amod yw—

(a) yr ymgynghorir â phennaeth yr ysgol berthnasol lle y mae'r dysgwr yn ddisgybl cofrestredig ynghylch y penderfyniad i dynnu'n ôl drefniadau teithio; a

(b) yr hysbysir pennaeth yr ysgol berthnasol lle y mae'r dysgwr yn ddisgybl cofrestredig o'r penderfyniad o leiaf 24 awr cyn bydd tynnu'n ôl y trefniadau yn dod yn effeithiol.

(7) Y trydydd amod yw bod y penderfyniad i dynnu'n ôl drefniadau teithio yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

(8) Y pedwerydd amod yw bod yr awdurdod lleol yn hysbysu rhiant y dysgwr, o leiaf 24 awr cyn i dynnu'n ôl y trefniadau ddod yn effeithiol, bod y trefniadau teithio'n cael eu tynnu'n ôl.

(9) Y pumed amod yw nad yw'r cyfnod pan yw'r trefniadau wedi eu tynnu'n ôl yn fwy na 10 niwrnod ysgol dilynol.

(10) Y chweched amod yw na fyddai'r cyfnod pan yw'r trefniadau wedi eu tynnu'n ôl yn arwain at dynnu'n ôl drefniadau teithio oddi wrth y dysgwr am fwy na 30 o ddiwrnodau ysgol yn y flwyddyn ysgol y mae tynnu'n ôl y trefniadau yn dod yn effeithiol ynddi.

(11) Wrth benderfynu a yw penderfyniad i dynnu'n ôl drefniadau teithio yn rhesymol at ddibenion is-adran (7), rhaid ystyried yn benodol y materion canlynol—

(a) a yw'r cyfnod pan yw'r trefniadau wedi eu tynnu'n ôl yn gymesur ag amgylchiadau'r achos,

(b) unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n berthnasol i dynnu'n ôl drefniadau teithio ac sy'n hysbys i'r awdurdod lleol (neu y dylai'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol ohonynt) gan gynnwys yn arbennig—

(i) oed y dysgwr,

(ii) unrhyw [F7 anhawster dysgu] a all fod gan y dysgwr,

(iii) unrhyw anabledd a all fod gan y dysgwr,

(iv) a fyddai'r dysgwr yn colli cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus, a

(v) a all rhiant y dysgwr yn rhesymol wneud trefniadau teithio amgen sy'n rhai addas.

(12) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran (6) neu is-adran (8) fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo nodi'n benodol—

(a) y cyfnod pan yw trefniadau teithio wedi eu tynnu'n ôl, a

(b) rhesymau'r awdurdod dros dynnu'n ôl y trefniadau teithio.

(13) At ddibenion yr adran hon ac adran 17, ystyr "ysgol berthnasol" yw—
(a) ysgol a gynhelir,
(b) uned cyfeirio disgyblion, neu
(c) ysgol arbennig nas cynhelir.

(14) Caiff rheoliadau—
(a) diwygio neu ddiddymu y naill neu'r llall o is-adrannau (9) a (10), neu'r ddwy;
(b) gwneud darpariaeth ar gyfer adolygu penderfyniadau a wneir o dan is-adran (2);
(c) gwneud darpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir o dan is-adran (2).

(15) Caiff rheoliadau o dan is-adran (14)(c) yn benodol—
(a) pennu'r categorïau o berson a gaiff apelio;
(b) pennu'r amgylchiadau pan ganiateir apelio;
(c) darparu ar gyfer cyfansoddiad panelau apelio;
(d) darparu ar gyfer gweithdrefnau apelio;
(e) gwneud darpariaeth ynghylch effaith penderfyniadau apêl;
(f) darparu ar gyfer talu lwfansau i aelodau o banelau apelio;
(g) ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag apelau.

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Geiriau yn a. 14(11)(b)(ii) wedi eu hamnewid (1.9.2021) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 14(4)**; O.S. 2021/373, ergl. 8(j)(xxvii)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I30** A. 14 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I31** A. 14 mewn grym ar 4.1.2010 gan O.S. 2009/371, **ergl. 2(2)(b)**

**I32** A. 14 mewn grym ar 4.1.2010 gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(2)(b)**

### *[F8 Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr*

**Diwygiadau Testunol**

**F8** A. 14A ac cross-heading wedi ei fewnosod (1.10.2014) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 1**, 16(1)

## 14A Gofyniad am wregysau diogelwch ar fysiau a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr

(1) Rhaid i gorff perthnasol sicrhau bod pob bws a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr y mae'n ei ddarparu neu yn ei sicrhau fel arall yn un y mae gwregys diogelwch wedi ei ffitio i bob sedd deithiwr.

(2) Rhaid i berson sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan gorff perthnasol sicrhau bod pob bws a ddefnyddir ar gyfer cludiant o'r fath yn un y mae gwregys diogelwch wedi ei ffitio i bob sedd deithiwr.

(3) Mae person sy'n methu â chydymffurfio ag is-adran (1) neu (2) yn cyflawni tramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(4) Mae'n amddiffyniad i ddangos bod y methiant i gydymffurfio ag is-adran (1) neu (2) wedi ei gyfiawnhau oherwydd amgylchiadau eithriadol.

(5) Nid oes dim yn yr adran hon i'w ddehongli fel petai'n gosod safonau technegol ar gyfer gwneuthuriad neu gyfarpar cerbyd sy'n wahanol i'r safonau a fyddai neu a allai fod yn gymwys mewn modd arall i'r cerbyd hwnnw yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu **[**[F9]unrhyw ofyniad **[**[F10]mewn deddfwriaeth uniongyrchol a gymathwyd**]]**.

(6) Yn yr adran hon—

ystyr "bws" yw cerbyd modur sydd wedi ei wneuthur neu wedi ei addasu i gario mwy nag wyth o deithwyr ar eu heistedd yn ychwanegol at y gyrrwr;

ystyr "deddfiad" yw unrhyw un o'r canlynol, pryd bynnag y'i pasiwyd neu y'i gwnaed—

(a) Deddf Seneddol;

(b) is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Seneddol;

(c) darpariaeth mewn unrhyw Ddeddf neu is-ddeddfwriaeth o'r fath;

ystyr "gwregys diogelwch" yw gwregys sydd wedi ei fwriadu ar gyfer ei wisgo gan berson mewn cerbyd ac sydd wedi ei ddylunio i atal neu leihau anafiadau i'r sawl sy'n ei wisgo os bydd damwain i'r cerbyd.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F9** Geiriau yn a. 14A(5) wedi eu hamnewid (31.12.2020) gan Rheoliadau Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/236), rhlau. 1(2), **2**; 2020 c. 1, Atod. 5 para. 1(1)

**F10** Geiriau yn a. 14A(5) wedi eu hamnewid (1.1.2024) gan Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/1332), rhlau. 1(2), **2**

*[*[F11]*Diogelwch ar gludiant i ddysgwyr*

**Diwygiadau Testunol**

**F11** A. 14B ac cross-heading wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 2**, 16(2)

## 14B Rhagor o ddarpariaethau ar gyfer y disgrifiadau o gerbydau y caniateir eu defnyddio yn gludiant i ddysgwyr

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach er mwyn—

(a) ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol sicrhau mai dim ond cerbydau o ddisgrifiadau rhagnodedig a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr y mae yn ei ddarparu neu yn ei sicrhau fel arall;

(b) ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan gorff perthnasol ddefnyddio cerbydau o ddisgrifiadau rhagnodedig yn unig;

(c) darparu am dramgwyddau troseddol a chosbau am dorri gofynion a osodir o dan yr adran hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan baragraffau (a) a (b) o is-adran (1) ddisgrifio cerbydau drwy gyfeirio at wneuthuriad, cyfarpar neu nodweddion eraill cerbyd.]

## [F12 14C Recordio delweddau gweledol neu sain ar gludiant i ddysgwyr

(1) Caiff rheoliadau—

(a) ei gwneud yn ofynnol i drefniadau rhagnodedig gael eu gwneud i recordio delweddau gweledol neu sain o ddigwyddiadau sy'n digwydd ar gludiant i ddysgwyr a ddarperir neu a sicrheir fel arall gan gorff perthnasol;

(b) darparu ynghylch defnyddio, storio a chadw delweddau gweledol neu sain a recordir ar gludiant i ddysgwyr a ddarperir neu a sicrheir gan gorff perthnasol;

(c) darparu am dramgwyddau troseddol a chosbau am dorri gofynion a osodir o dan yr adran hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymhlith pethau eraill) roi pwerau neu ddyletswyddau ar unrhyw un o'r canlynol—

(a) corff perthnasol;

(b) person sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan gorff perthnasol.

(3) Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) awdurdodi na'i gwneud yn ofynnol bod recordio yn digwydd mewn ffordd sydd wedi ei chynllunio i sicrhau nad yw personau sy'n ddarostyngedig iddo yn gwybod ei fod neu y gall fod yn digwydd.]

**Diwygiadau Testunol**

**F12** A. 14C wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 3**, 16(2)

## [F13 14D Asesiad risg diogelwch o gludiant i ddysgwyr

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol gynnal asesiadau risg diogelwch o'r cludiant i ddysgwyr y mae yn ei ddarparu neu yn ei sicrhau fel arall.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—

(a) gosod gofynion ynghylch natur yr asesiad i'w gynnal;

(b) ei gwneud yn ofynnol i lunio a chyhoeddi adroddiadau;

(c) rhagnodi ffurf a dull y cyhoeddi;

(d) rhagnodi pa mor aml y mae'n rhaid cynnal yr asesiadau.]

**Diwygiadau Testunol**

**F13** A. 14D wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 4**, 16(2)

### [F14 14E Hyfforddi gyrwyr

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol sy'n darparu neu yn sicrhau fel arall bod cludiant i ddysgwyr yn cael ei ddarparu sicrhau bod gyrwyr cerbydau a ddefnyddir at y cyfryw gludiant wedi cwblhau hyfforddiant rhagnodedig i safon ragnodedig.

(2) Caniateir rhagnodi hyfforddiant a safonau drwy gyfeirio at ddogfen a gyhoeddir, fel a bennir yn y rheoliadau, gan Weinidogion Cymru.

(3) Yn yr adran hon ystyr "hyfforddiant" yw hyfforddiant am ddiogelwch ar gludiant i ddysgwyr a gweithio gyda phlant.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F14** A. 14E wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 5**, 16(2)

### [F15 14F Goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr

(1) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer goruchwylio dysgwyr sy'n defnyddio cludiant i ddysgwyr a ddarperir neu a sicrheir fel arall gan gorff perthnasol.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymhlith pethau eraill)—

(a) rhoi pwerau i gorff perthnasol neu osod dyletswyddau arno;

(b) darparu ynghylch hyfforddiant i bersonau sy'n goruchwylio dysgwyr.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F15** A. 14F wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 6**, 16(2)

### [F16 14G Cosbau sifil

Mae i Atodlen A1 effaith.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F16** A. 14G wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 7(1)**, 16(2)

### [F17 14H Awdurdod gorfodi

(1) Caiff rheoliadau benodi person neu gorff (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i fod yn awdurdod gorfodi.

(2) Caniateir penodi mwy nag un person neu gorff yn awdurdod gorfodi.

(3) Caiff rheoliadau roi pwerau i awdurdod gorfodi neu osod dyletswyddau arno i orfodi darpariaeth a wneir gan adran 14A a chan reoliadau o dan adrannau 14B a 14C ac Atodlen A1 a chânt (ymhlith pethau eraill)—

(a) rhoi pŵer i awdurdod gorfodi i awdurdodi person (y cyfeirir ato yn y Mesur hwn fel "arolygydd") i arfer y pwerau yn adrannau 14I a 14J,

(b) gwneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n gymwys i'r awdurdod gorfodi, neu

(c) darparu i'r cyfryw ddeddfiad fod yn gymwys, gyda neu heb addasiadau, at ddibenion adran 14A a rheoliadau o dan adrannau 14B a 14C, yr adran hon ac Atodlen A1.

(4) Mae cyfeiriadau yn y Mesur hwn at awdurdod gorfodi yn gyfeiriadau at berson neu gorff a benodir o dan yr adran hon ac maent yn cynnwys person a benodir gan awdurdod gorfodi.

(5) Yn yr adran hon mae "deddfiad" yn cynnwys—

(a) deddfiad pryd bynnag y'i pasiwyd neu y'i gwnaed,

(b) deddfiad a geir mewn Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac

(c) darpariaeth a geir mewn is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr is-ddeddfwriaeth yn Neddf Dehongli 1978 (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru).**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F17** A. 14H wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 8**, 16(2)

### [F18 14I Pŵer mynediad

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i—

(a) cerbyd neu unrhyw fangre dan berchnogaeth neu reolaeth corff perthnasol;

(b) cerbyd neu fangre sy'n dod o fewn is-adran (2).

(2) Cerbyd neu fangre sy'n dod o fewn yr is-adran hon yw—

(a) y rhai a ddefnyddir, neu y bwriedir eu defnyddio, gan unrhyw berson mewn cysylltiad â darparu cludiant i ddysgwyr a ddarperir neu a sicrheir fel arall gan gorff perthnasol, neu

(b) y rhai y mae arolygydd yn credu yn rhesymol eu bod yn cael eu defnyddio felly, neu y bwriedir eu defnyddio felly.

(3) Caiff arolygydd ar unrhyw adeg resymol—

(a) cadw cerbyd yn gaeth;

(b) mynd i gerbyd neu fangre.

(4) Ond nid yw'r pŵer yn is-adran (3) yn cynnwys y pŵer i fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn annedd breifat.

(5) Rhaid i arolygydd sy'n arfer unrhyw bŵer a roddir o dan is-adran (3) neu adran 14J, os bydd yn ofynnol iddo wneud hynny, ddangos dogfen a awdurdodwyd yn briodol sy'n dangos bod gan yr arolygydd yr awdurdod i wneud felly.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F18** A. 14I wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 9**, 16(2)

## [F19 14J Pŵer arolygu

(1) Caiff arolygydd sy'n cadw cerbyd yn gaeth neu yn mynd i mewn i gerbyd neu fangre o dan adran 14I—

(a) arolygu'r cerbyd neu'r fangre;

(b) arolygu unrhyw ddogfennau neu gofnodion sy'n ymwneud â darparu cludiant i ddysgwyr, cymryd copïau ohonynt a mynd â hwy o'r cerbyd neu'r fangre;

(c) arolygu unrhyw eitem arall a mynd ag ef o'r cerbyd neu'r fangre.

(2) Mae'r pŵer yn is-adran (1)(b) yn cynnwys—

(a) pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n dal dogfennau neu gofnodion a gedwir yn y cerbyd neu'r fangre neu sy'n gyfrifol am y dogfennau neu'r cofnodion hynny i'w dangos hwy, a

(b) o ran cofnodion a gedwir yn gyfrifiadurol, pŵer i'w gwneud yn ofynnol dangos y cofnodion ar ffurf y mae modd eu darllen a mynd â hwy i ffwrdd.

(3) Nid yw'r pŵer yn is-adran (1)(b) yn cynnwys pŵer—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion y gellid cynnal hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn cysylltiad â hwy mewn achos cyfreithiol, neu

(b) i gymryd copïau o'r cyfryw ddogfennau neu gofnodion neu i fynd â hwy i ffwrdd.

(4) Mewn cysylltiad ag arolygu'r cyfryw ddogfennau, caiff arolygydd—

(a) mynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sydd yn ei dyb ef yn cael neu wedi cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r dogfennau ac arolygu a gwirio gweithrediad y cyfrifiadur, y cyfarpar cysylltiedig neu'r deunydd, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i berson o fewn is-adran (5) roi unrhyw gymorth rhesymol a all fod yn ofynnol at y diben hwnnw.

(5) Mae person o fewn yr is-adran hon—

(a) os y person hwnnw yw'r person sy'n defnyddio'r cyfrifiadur neu a'i defnyddiodd neu'r person y defnyddir neu y defnyddiwyd y cyfrifiadur ar ei ran, neu

(b) os yw'r person hwnnw yn berson sydd â gofal y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu'n ymwneud fel arall â'u gweithrediad.

(6) Caiff arolygydd sy'n cadw cerbyd yn gaeth neu'n mynd i gerbyd neu fangre ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi unrhyw gyfleusterau neu gymorth iddo o ran materion o fewn rheolaeth y person ag sy'n angenrheidiol er mwyn ei alluogi i arfer pwerau o dan adran 14I neu'r adran hon.

(7) Bydd unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol—

(a) yn rhwystro arolygydd rhag arfer unrhyw bŵer o dan adran 14I neu'r adran hon, neu

(b) yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan yr adran hon,

yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F19** A. 14J wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 10**, 16(2)

### [F20 14K Y pŵer i fynnu gwybodaeth

(1) Caiff awdurdod gorfodi ar unrhyw adeg ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a bennir yn is-adran (2) roi iddo unrhyw wybodaeth, dogfennau, cofnodion neu eitemau eraill—

(a) sy'n ymwneud â darparu cludiant i ddysgwyr, a

(b) sydd, ym marn yr awdurdod gorfodi, yn angenrheidiol neu'n hwylus i'w cael at ddibenion ei swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi.

(2) Y personau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yw—

(a) corff perthnasol;

(b) unrhyw berson sy'n darparu cludiant i ddysgwyr a sicrheir gan gorff perthnasol.

(3) Mae'r pŵer yn is-adran (1) yn cynnwys, mewn perthynas â gwybodaeth, dogfennau neu gofnodion a gedwir yn gyfrifiadurol, y pŵer i'w gwneud yn ofynnol eu darparu ar ffurf y mae modd eu darllen a mynd â hwy i ffwrdd.

(4) Nid yw'r pŵer yn is-adran (1) yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth, dogfennau neu gofnodion y gellid cynnal hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn cysylltiad â hwy mewn achos cyfreithiol yn cael eu darparu.

(5) Mae unrhyw berson sydd heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir yn rhinwedd yr adran hon yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar yr raddfa safonol.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F20** A. 14K wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 11**, 16(2)

### [F21 14L Tramgwyddau: atebolrwydd swyddogion a phartneriaid

(1) Pan brofir bod tramgwydd o dan adran 14A, 14B neu 14C a gyflawnir gan gorff corfforaethol wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu gydgynllwyn swyddog o'r corff corfforaethol, neu i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog o'r corff corfforaethol, caiff rheoliadau ddarparu y bydd y swyddog yn atebol yn ogystal â'r corff corfforaethol ei hun.

(2) Pan brofir bod tramgwydd o dan adran 14A, 14B neu 14C a gyflawnir gan bartneriaeth wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu gydgynllwyn partner yn y bartneriaeth, neu

i'w briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner yn y bartneriaeth, caiff rheoliadau ddarparu y bydd y partner yn atebol yn ogystal â'r bartneriaeth ei hun.]

**Diwygiadau Testunol**

**F21** A. 14L wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 12**, 16(2)

### [F22 14M Rheoliadau: ymgynghori

Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob awdurdod lleol ac ag unrhyw bersonau eraill y mae yn eu barn hwy yn briodol ymgynghori â hwy cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adrannau 14B i 14F, adran 14H neu 14L neu Atodlen A1.]

**Diwygiadau Testunol**

**F22** A. 14M wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 13**, 16(2)

### [F23 14N Dehongli adrannau 14A i 14K

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion adrannau 14A i 14K.

(2) Mae pob un o'r canlynol yn "gorff perthnasol"—

(a) awdurdod lleol;

(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir.

(3) Ystyr "cludiant i ddysgwyr" yw cludiant i'w gwneud yn hwylus i blentyn fynychu unrhyw fan perthnasol lle y caiff addysg neu hyfforddiant; ond nid yw'n cynnwys cludiant a ddarperir er mwyn teithio yn ystod y dydd rhwng mannau perthnasol neu rhwng safleoedd gwahanol o'r un sefydliad.

(4) Nid yw'r weithred o wneud unrhyw un o'r trefniadau a ganlyn i'w hystyried, ynddi'i hun, fel petai'n darparu cludiant i ddysgwyr neu'n sicrhau fel arall bod cludiant i ddysgwyr yn cael ei ddarparu.

(5) Y trefniadau a grybwyllir yn is-adran (4) yw—

(a) trefniadau i dalu'r cyfan neu unrhyw ran o dreuliau teithio rhesymol person;

(b) trefniadau i dalu lwfansau mewn cysylltiad â defnyddio cludiant.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio is-adran (3) yn y fath fodd ag i hepgor y geiriau o "ond nid yw'n cynnwys" hyd at ddiwedd yr is-adran.]

**Diwygiadau Testunol**

**F23** A. 14N wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 14**, 16(2)

*Atodol*

## 15 Canllawiau a chyfarwyddiadau

(1) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur hwn, rhaid i'r cyrff canlynol roi sylw i ganllawiau a roddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru—

(a) awdurdodau lleol;

(b) cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir;

(c) cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach.

(2) Rhaid i awdurdod lleol wneud y cyfryw drefniadau teithio i ddysgwyr o dan adran 3, adran 4 neu adran 6 ag y mae Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo i'w gwneud.

(3) Wrth wneud trefniadau o dan adran 3, adran 4 neu adran 6 rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(4) Caniateir i gyfarwyddiadau o dan yr adran hon gael eu rhoi i un awdurdod lleol neu fwy neu i awdurdodau lleol yn gyffredinol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** A. 15 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I34** A. 15 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

## 16 Gwybodaeth am drefniadau teithio

Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gyhoeddi, ar y cyfryw adegau ac yn y cyfryw fodd ag a ragnodir, wybodaeth—

(a) a ddaw i law wrth wneud asesiadau o dan adran 2(2);

(b) am asesiadau a wneir o dan yr adran honno;

(c) am y trefniadau teithio a wneir o dan y Mesur hwn;

(d) am y cod ymddygiad wrth deithio a wneir o dan adran 12.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** A. 16 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I36** A. 16 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

## 17 Cydweithredu: gwybodaeth neu gymorth arall

(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru roi i awdurdod lleol unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y mae'n rhesymol bod ar awdurdod lleol ei hangen neu ei angen er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

(2) Rhaid i awdurdod lleol roi i awdurdod lleol arall unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y mae'n rhesymol bod ar awdurdod lleol arall ei hangen neu ei angen er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan adrannau 2, 3, 4 a 6.

(3) Rhaid i awdurdod lleol roi i bennaeth ysgol berthnasol unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y mae'n rhesymol bod ar bennaeth ei hangen neu ei angen ynghylch

ymddygiad disgybl cofrestredig yn ei ysgol tra oedd y disgybl yn manteisio ar drefniadau teithio a wnaed gan yr awdurdod lleol o dan y Mesur hwn.

(4) Rhaid i bennaeth ysgol berthnasol roi i awdurdod lleol unrhyw wybodaeth neu gymorth arall y mae'n rhesymol bod ar yr awdurdod lleol ei hangen neu ei angen er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 14.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** A. 17 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I38** A. 17(1)(2) mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**
**I39** A. 17(3) mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**
**I40** A. 17(4) mewn grym ar 4.1.2010 gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(2)(c)**
**I41** A. 17(4) mewn grym ar 4.1.2010 gan O.S. 2009/371, **ergl. 2(2)(c)**

## 18 Talu costau teithio gan awdurdod lleol y mae plentyn yn derbyn gofal ganddo

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol ("awdurdod A") yn gwneud trefniadau teithio o dan adran 3 neu adran 4 ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ardal wahanol ("awdurdod B").

(2) Caiff awdurdod A alw ar i awdurdod B ad-dalu'r cyfan neu ran o'r gost o wneud trefniadau teithio.

(3) Rhaid i awdurdod B gydymffurfio â'r galw am ad-dalu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I42** A. 18 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I43** A. 18 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 19 Penderfynu ar breswylfa arferol mewn amgylchiadau arbennig

(1) Os nad oes gan berson breswylfa arferol, mae'r person hwnnw i'w drin at ddibenion y Mesur hwn fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y man lle y mae'n preswylio am y tro.

(2) Mae is-adrannau (3) i (6) yn gymwys i blentyn neu berson ifanc sydd naill ai—
(a) yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol, neu
(b) wedi ymrestru yn fyfyriwr llawnamser mewn sefydliad yn y sector addysg bellach.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i blentyn neu berson ifanc—
(a) nad yw ei rieni'n cyd-fyw, a
(b) sy'n byw fel arfer gyda mwy nag un rhiant yn ystod y cyfnodau pan yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael addysg neu hyfforddiant.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys i blentyn neu berson ifanc sy'n byw fel arfer gyda rhiant ac mewn cartref plant hefyd yn ystod y cyfnodau pan yw'r plentyn neu'r person ifanc yn cael addysg neu hyfforddiant.

(5) At ddibenion y Mesur hwn—

(a) mae plentyn neu berson ifanc y mae is-adran (3) yn gymwys iddo yn preswylio fel arfer yn y mannau lle y mae y naill o'i rieni a'r llall yn preswylio fel arfer;

(b) mae plentyn neu berson ifanc y mae is-adran (4) yn gymwys iddo yn preswylio fel arfer yn y cartref plant ac yn y man lle y mae ei riant yn preswylio fel arfer.

(6) Ond os oes mwy na dau o'r cyfryw fannau, mae'r plentyn neu'r person ifanc yn preswylio fel arfer yn y ddau fan sydd agosaf—

(a) at yr ysgol lle y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ddisgybl cofrestredig, neu

(b) at y sefydliad yn y sector addysg bellach lle y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi ymrestru'n fyfyriwr llawnamser.

(7) Yn yr adran hon—

[F24(a) ystyr "cartref plant" yw mangre lle y mae—

(i) gwasanaeth cartref gofal yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant neu bobl ifanc; neu

(ii) gwasanaeth llety diogel yn cael ei ddarparu;

ac yn y paragraff hwn mae i "gwasanaeth cartref gofal" a "gwasanaeth llety diogel" yr ystyr a roddir yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2);]

(b) ystyr "rhiant" yw rhiant o fewn yr ystyr sydd i "parent" yn adran 576(1) o Ddeddf Addysg 1996 ac sy'n unigolyn.

**Diwygiadau Testunol**

**F24** A. 19(7)(a) wedi ei amnewid (2.4.2018) gan Rheoliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 (O.S. 2018/195), rhlau. 2(1), **42**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I44** A. 19 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I45** A. 19 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

## 20 Diwygiadau i adran 444 o Ddeddf Addysg 1996

(1) Diwygir adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 (mynychu'r ysgol) fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adran (4) rhodder—

"(4) The child is not to be taken to have failed to attend regularly at the school if the parent proves that the local authority have failed to discharge—

(a) a duty to make transport arrangements in relation to the child under section 3 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, or

(b) a duty to make travel arrangements in relation to the child under section 4 of that Measure."

(3) Yn is-adran (5) yn lle "subsections (3D) and (4)" rhodder "subsection (3D)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I46** A. 20 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I47** A. 20 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

**21 Diwygiadau i Ddeddf Addysg 2002**

(1) Diwygir Deddf Addysg 2002 fel a ganlyn.

(2) Diwygir adran 32 (pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol) fel a ganlyn—

(a) yn is-adran (1)(b) o flaen "the governing body" mewnosoder "subject to subsections (5) to (9),";

(b) yn is-adran (2)(b) o flaen "the times" mewnosoder "subject to subsections (5) to (9)";

(c) ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) Subsections (1)(b) and (2)(b) do not apply in relation to a school in Wales in the circumstances specified in subsection (6).

(6) The circumstances are—

(a) that the local education authority in whose area the school is situated have given notice in writing to the governing body of the school that the times of the school sessions are to be determined in accordance with subsection (8), and

(b) that the notice has not been withdrawn by the local education authority.

(7) A local education authority must not issue a notice of the kind mentioned in subsection (6)(a) unless they consider a change in the times of the sessions of that school to be necessary or expedient in order to—

(a) promote the use of sustainable modes of travel within the meaning of section 11 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, or

(b) improve the effectiveness or efficiency of travel arrangements made, or to be made, by the authority under that Measure.

(8) In relation to a school subject to a notice of the kind mentioned in subsection (6)(a)—

(a) where there are two school sessions on the relevant school day—

(i) the local education authority must determine the time each day at which the first school session starts and the second school session ends, and

(ii) the governing body must determine the time each day at which the first school session ends and the second school session starts;

(b) where there is one school session on the relevant school day the local education authority must determine the time each day at which the school session starts and ends.

(9) The Welsh Ministers may make provision by regulations—

(a) as to the procedure to be followed where the local education authority propose to issue a notice of the kind mentioned in subsection (6)(a);

(b) as to the matters to be included in such a notice;

(c) as to the implementation of any determination under subsection (8);

(d) for enabling the local education authority to determine, for any purposes of the regulations, whether any person is to be treated as a parent of a registered pupil at the school.

(10) In giving notice as described in subsection (6) and in discharging any function conferred by subsections (7) or (8) or by regulations under subsection (9), a local education authority must have regard to guidance given by the Welsh Ministers."

(3) Yn adran 210 (gorchmynion a rheoliadau)—

(a) yn is-adran (1) yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "the Welsh Ministers";

(b) ar ôl is-adran (6) mewnosoder—

"(6A) Any statutory instrument containing regulations made under section 32(9) by the Welsh Ministers is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.

(6B) Paragraphs 33 to 35 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 make provision about the National Assembly for Wales procedures that apply to any statutory instrument containing regulations or an order made in exercise of functions conferred upon the National Assembly for Wales by this Act that have been transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of that Schedule.";

(c) yn is-adran (7)—

(i) yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "the Welsh Ministers",

(ii) yn lle "the Assembly thinks" ym mharagraff (c) rhodder "the Welsh Ministers think".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I48** A. 21 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I49** A. 21 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

## 22 Diwygiadau i adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996

(1) Diwygir Deddf Addysg 1996 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 455 (taliadau a ganiateir)—

(a) ar ôl is-adran (1)(b) mewnosoder—

"(ba) travel arrangements provided under section 6 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 ("the Measure") for a registered pupil at a maintained school in Wales, other than arrangements in respect of which, by virtue of section 454(3) of this Act or sections 3 or 4 of the Measure, no charge may be made,";

(b) yn is-adran (1)(c) ar ôl "maintained school" mewnosoder "in England" a hepgorer "or 509(2)";

(c) ar ddiwedd is-adran (2)(b) hepgorer "or";

(d) ar ôl is-adran (2)(b) mewnosoder—

"(ba) by virtue of subsection (1)(ba) in respect of the provision for a pupil of travel arrangements, or";

(e) yn is-adran (3) ar ôl "entry" mewnosoder "travel arrangements,".

(3) Yn adran 456 (rheoleiddio taliadau a ganiateir), yn is-adran (3) ar ôl "A regulated charge" mewnosoder ", except any charge permitted by virtue of section 455(1)(ba),".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I50** A. 22 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I51** A. 22 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 23 Diwygiadau i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006

(1) Diwygir Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 162 (pŵer i ddiddymu cyfeiriadau at "local education authority"), ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) The Welsh Ministers may by order make such provision as appears to them to be appropriate for the purpose of—

(a) repealing any reference in a Measure of the National Assembly for Wales to a local education authority (however expressed), and

(b) replacing it, where it appears to them to be appropriate, with a reference (however expressed) to a Welsh local authority."

(3) Yn adran 181—

(a) yn lle is-adran (1) rhodder—

"(1) Any power of the Secretary of State or the Welsh Ministers to make an order or regulations under this Act is exercisable by statutory instrument.";

(b) yn is-adran (2)—

(i) yn lle "the Assembly", y tro cyntaf y ceir yr ymadrodd hwnnw, rhodder "the Welsh Ministers",

(ii) yn lle "the Assembly thinks" ym mharagraff (c) rhodder "the Welsh Ministers think".

(4) Ar ôl adran 182 mewnosoder—

**"182A Assembly control of orders and regulations**

(1) Any statutory instrument containing an order made under section 162(5A) by the Welsh Ministers may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the Assembly.

(2) Paragraphs 33 to 35 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 make provision about the Assembly procedures that apply to any statutory instrument containing regulations or an order made in exercise of functions

conferred upon the Assembly by this Act that have been transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of that Schedule."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I52** A. 23 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I53** A. 23 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

*Cyffredinol*

## 24 Dehongli cyffredinol

(1) Yn y Mesur hwn—

nid yw "addysg" ("*education*") yn cynnwys addysg uwch;

ystyr "addysg feithrin" ("*nursery education*") yw addysg sy'n addas i blant nad ydynt wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol;

mae i "anabledd" yr ystyr sydd i "disability" ac i "person anabl" yr ystyr sydd i "disabled person" yn adran 1 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (p.50);

ystyr "anhawster dysgu" ("*learning difficulty*") mewn cysylltiad â pherson yw—

(a) anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy nag sydd gan y mwyafrif o bersonau yr un oed, neu

(b) anabledd sydd naill ai'n atal y person hwnnw rhag defnyddio cyfleusterau o fath a ddarperir mewn mannau perthnasol, neu sy'n ei lesteirio wrth iddo eu defnyddio,

ond ni ddylid cymryd bod gan berson anhawster dysgu dim ond oherwydd bod yr iaith (neu'r ffurf ar yr iaith) y dysgir y person drwyddi (yn awr neu yn y dyfodol) yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sydd wedi ei siarad ar unrhyw adeg yng nghartref y person;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw **[**F25awdurdod lleol**]** yng Nghymru; ond mewn unrhyw gyfeiriad at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol ei ystyr yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru sy'n arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr ystyr yn **[**F26Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**]**1970 (p.42);

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw unrhyw gyfnod o 1 Awst i 31 Gorffennaf;

ystyr "profiad gwaith" ("*work experience*") yw profiad gwaith a drefnir ar gyfer—

(a) un o ddisgyblion cofrestredig ysgol a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, neu

(b) myfyriwr sydd wedi ymrestru mewn sefydliad o fewn y sector addysg bellach,

gan gorff llywodraethu'r sefydliad addysg perthnasol, neu ar ran y corff llywodraethu;

ystyr "rhagnodi" ("*prescribed*") yw rhagnodi mewn rheoliadau;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir;

ystyr "ysgol arbennig nas cynhelir" ("*non-maintained special school*") yw ysgol a gymeradwywyd o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996.

(2) Mae i gyfeiriadau yn y Mesur hwn at blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yr un ystyr ag sydd iddynt yn **[**[F27]adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**]**1989 (p.41).

(3) Yn ddarostyngedig i is-adran (4), mae Deddf Addysg 1996 a darpariaethau'r Mesur hwn i'w darllen fel pe bai'r darpariaethau hynny wedi eu cynnwys yn Neddf Addysg 1996.

(4) Os rhoddir i ymadrodd, at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwn, ystyr sy'n wahanol i'r ystyr a roddir iddo at ddibenion Deddf Addysg 1996, yr ystyr a roddir iddo at ddibenion y ddarpariaeth honno sydd i fod yn gymwys yn lle'r ystyr a roddir at ddibenion y Ddeddf honno.

**Diwygiadau Testunol**

**F25** Geiriau yn a. 24(1) wedi eu hamnewid (5.5.2010) gan Gorchymyn Awdurdodau Addysg Lleol ac Awdurdodau Gwasanaethau Plant (Integreiddio Swyddogaethau) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1148), erglau. 1, **2**

**F26** Geiriau yn a. 24(1) wedi eu hamnewid (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **268(2)**

**F27** Geiriau yn a. 24(2) wedi eu hamnewid (6.4.2016) gan Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413), rhlau. 2(1), **268(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I54** A. 24 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I55** A. 24 mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

## 25 Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Mae Atodlen 1 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â'r darpariaethau a wneir gan y Mesur hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I56** A. 25 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I57** A. 25 mewn grym ar 6.3.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

**I58** A. 25 mewn grym ar 1.9.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## 26 Diddymiadau

Diddymir y deddfiadau a bennir yn Atodlen 2 i'r graddau a bennir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I59** A. 26 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I60** A. 26 mewn grym ar 6.3.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**
**I61** A. 26 mewn grym ar 1.9.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**
**I62** A. 26 mewn grym ar 30.10.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(1)(c)**

## 27 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion neu **[**[F28]ddosbarthau ar achos neu ddibenion gwahanol neu**]** ardaloedd gwahanol;

**[**[F29](aa) i wneud darpariaeth yn ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig;**]**

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion **[**[F30]neu ddosbarthau ar achos**]** penodol;

(c) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, trosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.

(3) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 3(9), [F31]... **[**[F32]7, 8, 14B, 14C, 14D, 14E, 14F, 14H neu 14L neu Atodlen A1**]** hefyd yn cynnwys pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaeth ganlyniadol ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda ei gwneud.

(4) Caiff y ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, trosiannol, arbed neu ganlyniadol sydd i'w gwneud mewn rheoliadau gynnwys y cyfryw ddarpariaeth ag sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw un o ddarpariaethau—

(a) y Mesur hwn neu unrhyw un arall o Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a basiwyd cyn y Mesur hwn neu yn yr un flwyddyn Cynulliad ag ef;

(b) Deddf a basiwyd cyn pasio'r Mesur hwn;

(c) is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn pasio'r Mesur hwn.

**[**[F33](4A) Wrth gymhwyso is-adran (4) i reoliadau a wneir o dan adrannau 14B i 14F, adran 14H neu 14L neu Atodlen A1 mae'r cyfeiriad at "y Mesur hwn" yn is-adran (4) i'w ddehongli fel cyfeiriad at Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2011.**]**

(5) Mae unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Nid yw is-adran (5) yn gymwys i reoliadau y mae is-adran (7) yn gymwys iddynt.

(7) Ni chaniateir i offeryn statudol gael ei wneud sy'n cynnwys (wrth eu hunain neu ynghyd â darpariaethau eraill)—

(a) rheoliadau o dan adran 3(9),

(b) rheoliadau o dan adran 7,

(c) rheoliadau o dan adran 8,

(d) rheoliadau o dan adran 14(14)(a), [F34]...

**[**[F35](da) rheoliadau o dan adran 14B, 14C, 14D, 14E, 14F, 14H neu 14L neu Atodlen A1, neu**]**

**[**[F35](db) gorchymyn o dan adran 14N(6).**]**

(e) rheoliadau o dan is-adran (4) sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw un neu rai o ddarpariaethau Deddf neu Fesur Cynulliad,

onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**Diwygiadau Testunol**

**F28** Geiriau yn a. 27(2)(a) wedi eu mewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(2)(a)**, 16(2)

**F29** A. 27(2)(aa) wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(2)(b)**, 16(2)

**F30** Geiriau yn a. 27(2)(b) wedi eu mewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(2)(c)**, 16(2)

**F31** Geiriau yn a. 27(3) wedi eu hepgor (10.7.2011) yn rhinwedd Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(3)**, 16(2)

**F32** Geiriau yn a. 27(3) wedi eu mewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(3)**, 16(2)

**F33** A. 27(4A) wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(4)**, 16(2)

**F34** Gair yn a. 27(7)(d) wedi ei hepgor (10.7.2011) yn rhinwedd Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(5)(a)**, 16(2)

**F35** A. 27(7)(da)(db) wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), **aau. 15(5)(b)**, 16(2)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I63** A. 27 mewn grym ar 10.2.2009, gweler **a. 28(1)**

## 28 Cychwyn

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar ddiwedd cyfnod o ddeufis yn dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn Ei Chyngor—

yr adran hon;

adran 27;

adran 29.

(2) Daw darpariaethau'r Mesur hwn sy'n weddill i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I64** A. 28 mewn grym ar 10.2.2009, gweler **a. 28(1)**

## 29 Enw byr a chynnwys y Mesur yn y Deddfau Addysg

(1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

(2) Mae'r Mesur hwn i'w gynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a geir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I65** A. 29 mewn grym ar 10.2.2009, gweler **a. 28(1)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## [F36ATODLEN A1

*(a gyflwynwyd gan adran 14G)*

## COSBAU SIFIL

**Diwygiadau Testunol**

**F36** Atod. A1 wedi ei fewnosod (10.7.2011) gan Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 (nawm 6), a. 16(2), **Atod.**

*Cosbau sifil*

1 (1) Caiff rheoliadau ddarparu ynghylch cosbau sifil am dorri rheoliadau diogelwch.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person yn torri rheoliadau diogelwch os yw'r person, o dan amgylchiadau a bennir—

(a) yn methu â chydymffurfio â gofyniad a wneir gan neu o dan reoliadau diogelwch, neu

(b) yn rhwystro neu'n methu â chynorthwyo awdurdod gorfodi.

(3) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cosb sifil" yw—

(a) cosb ariannol benodedig (gweler paragraff 2),

(b) gofyniad yn ôl disgresiwn (gweler paragraff 4),

(c) hysbysiad stop (gweler paragraff 7), neu

(d) ymgymeriad gorfodi (gweler paragraff 11);

ystyr "rheoliadau diogelwch" yw rheoliadau a wneir o dan adran 14B neu 14C.

*Cosbau ariannol penodedig*

2 (1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i awdurdod gorfodi i osod drwy hysbysiad gosb ariannol benodedig ar berson sy'n torri rheoliadau diogelwch.

(2) Ni chaiff y rheoliadau roi'r cyfryw bŵer ond mewn perthynas ag achos pan fo'r awdurdod gorfodi wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd fod y rheoliadau wedi eu torri.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, gofyniad i dalu cosb i awdurdod gorfodi a'r gosb honno yn un o swm a bennir neu y penderfynir arno yn unol â'r rheoliadau yw "cosb ariannol benodedig".

(4) Ni chaiff y rheoliadau ddarparu am osod cosb ariannol benodedig uwch na £5,000.

*Cosbau ariannol penodedig: y weithdrefn*

3 (1) Rhaid i ddarpariaeth o dan baragraff 2 sicrhau—

(a) pan fo awdurdod gorfodi yn bwriadu gosod cosb ariannol benodedig ar berson, bod rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o'r hyn a fwriedir ("hysbysiad o fwriad") i'r person hwnnw a'r hysbysiad hwnnw'n cydymffurfio ag is-baragraff (2),

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) bod yr hysbysiad o fwriad hefyd yn cynnig y cyfle i'r person ei ryddhau ei hun o'i atebolrwydd i dalu'r gosb ariannol benodedig drwy dalu swm penodedig (y mae'n rhaid iddo fod yn llai na swm y gosb neu gyfwerth â'r swm hwnnw),

(c) os nad yw'r person yn ei ryddhau ei hun o'r atebolrwydd yn y ffordd hon—

(i) y caiff y person gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r bwriad i osod cosb ariannol benodedig, a

(ii) ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau, bod rhaid i'r awdurdod gorfodi benderfynu p'un ai gosod y gosb ariannol benodedig ai peidio,

(d) pan fo'r awdurdod gorfodi yn penderfynu gosod y gosb ariannol benodedig, bod yr hysbysiad sy'n ei gosod ("yr hysbysiad terfynol") yn cydymffurfio ag is-baragraff (4), ac

(e) bod y person y gosodir cosb ariannol benodedig arno yn cael apelio yn erbyn y penderfyniad i'w osod.

(2) I gydymffurfio â'r is-baragraff hwn, rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth am—

(a) y seiliau dros y bwriad i osod y gosb ariannol benodedig,

(b) effaith talu'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(b),

(c) yr hawl i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau,

(d) yr amgylchiadau pryd na chaiff yr awdurdod gorfodi osod y gosb ariannol benodedig,

(e) y cyfnod pryd y caniateir i berson ei ryddhau ei hun o'i atebolrwydd i dalu'r gosb ariannol benodedig, nas caniateir i fod yn fwy na'r cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y cafwyd yr hysbysiad o fwriad, ac

(f) y cyfnod pryd y caniateir cyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau, nas caniateir i fod yn fwy na'r 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad.

(3) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(c)(ii) gynnwys darpariaeth am amgylchiadau pryd na chaniateir i'r awdurdod gorfodi benderfynu gosod cosb ariannol benodedig.

(4) I gydymffurfio â'r is-baragraff hwn rhaid i'r hysbysiad terfynol y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(d) gynnwys gwybodaeth am—

(a) y seiliau dros osod y gosb,

(b) sut y caniateir i'r taliad gael ei wneud,

(c) y cyfnod pryd y mae'n rhaid gwneud y taliad,

(d) unrhyw ddisgowntiau am wneud taliadau cynnar neu gosbau am wneud taliadau hwyr,

(e) hawliau apelio, ac

(f) canlyniadau peidio â thalu.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(e) sicrhau bod y seiliau y caniateir i berson apelio arnynt yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod gorfodi yn cynnwys y canlynol—

(a) bod y penderfyniad wedi ei wneud ar sail camgymeriad ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir o ran y gyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

*Gofynion yn ôl disgresiwn*

4 (1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i awdurdod gorfodi osod, drwy hysbysiad, un neu ragor o ofynion yn ôl disgresiwn ar berson sy'n torri rheoliadau diogelwch.

(2) Ni chaiff y rheoliadau roi'r cyfryw bŵer ond mewn perthynas ag achos pan fo'r awdurdod gorfodi wedi ei fodloni yn ôl pwysau tebygolrwydd fod y rheoliadau wedi eu torri.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon ystyr "gofyniad yn ôl disgresiwn" yw—

(a) gofyniad i dalu cosb ariannol i awdurdod gorfodi o swm y caniateir i'r awdurdod gorfodi ei benderfynu, neu

(b) gofyniad i gymryd unrhyw gamau a bennir gan awdurdod gorfodi, cyn pen cyfnod a bennir gan yr awdurdod gorfodi, er mwyn sicrhau nad yw'r toriad yn parhau neu'n digwydd eto.

(4) Yn yr Atodlen hon—

ystyr "cosb ariannol amrywiadwy" yw gofyniad y cyfeirir ato yn is-baragraff (3)(a);

ystyr "gofyniad heb fod yn ariannol yn ôl disgresiwn" yw gofyniad y cyfeirir ato yn is-baragraff (3)(b).

(5) Rhaid i'r rheoliadau, mewn perthynas â phob math o doriad o reoliadau diogelwch y caniateir gosod cosb amrywiadwy amdano—

(a) pennu'r gosb uchaf y caniateir ei gosod am doriad o'r math hwnnw, neu

(b) darparu am benderfynu'r gosb uchaf honno yn unol â'r rheoliadau.

(6) Ni chaiff y rheoliadau ganiatáu gosod gofynion yn ôl disgresiwn ar berson ar ragor nag un achlysur mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith.

*Gofynion yn ôl disgresiwn: y weithdrefn*

5 (1) Rhaid i ddarpariaeth o dan baragraff 4 sicrhau—

(a) pan fo awdurdod gorfodi yn bwriadu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn ar berson, bod rhaid i'r awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o'r hyn a fwriedir ("hysbysiad o fwriad") i'r person hwnnw a'r hysbysiad hwnnw yn cydymffurfio ag is-baragraff (2),

(b) y caiff y person hwnnw gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau ysgrifenedig i'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â'r bwriad i osod gofyniad yn ôl disgresiwn,

(c) ar ôl diwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r cyfryw sylwadau a gwrthwynebiadau, rhaid i'r awdurdod gorfodi benderfynu p'un ai—

(i) i osod y gofyniad yn ôl disgresiwn, gyda neu heb addasiadau, neu

(ii) i osod unrhyw ofyniad arall yn ôl disgresiwn y mae gan yr awdurdod gorfodi y pŵer i'w osod o dan baragraff 4,

(d) pan fo'r awdurdod gorfodi yn penderfynu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn, bod yr hysbysiad sy'n ei osod (yr "hysbysiad terfynol") yn cydymffurfio ag is-baragraff (4), ac

(e) bod y person y gosodir gofyniad yn ôl disgresiwn arno yn cael apelio yn erbyn y penderfyniad i'w osod.

(2) I gydymffurfio â'r is-baragraff hwn, rhaid i'r hysbysiad o fwriad gynnwys gwybodaeth am—
(a) y seiliau dros y bwriad i osod y gofyniad yn ôl disgresiwn;
(c) yr hawl i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau;
(c) yr amgylchiadau pryd na chaiff yr awdurdod gorfodi osod y gofyniad yn ôl disgresiwn;
(d) y cyfnod pryd y caniateir cyflwyno sylwadau ac gwrthwynebiadau, nas caniateir i fod yn fwy na'r 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cafwyd yr hysbysiad o fwriad.

(3) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(c) gynnwys darpariaeth am amgylchiadau pryd na chaniateir i'r awdurdod gorfodi benderfynu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn.

(4) I gydymffurfio â'r is-baragraff hwn rhaid i'r hysbysiad terfynol y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(d) gynnwys gwybodaeth am—
(a) y seiliau dros osod y gofyniad yn ôl disgresiwn,
(b) pan fo'r gofyniad yn ôl disgresiwn yn gosb ariannol amrywiadwy—
(i) sut y caniateir i'r taliad gael ei wneud,
(ii) y cyfnod pryd y mae'n rhaid gwneud y taliad, a
(iii) unrhyw ddisgowntiau am wneud taliadau cynnar neu gosbau am wneud taliadau hwyr,
(c) hawliau apelio, a
(d) canlyniadau peidio â chydymffurfio.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (1)(e) sicrhau bod y seiliau y caniateir i berson apelio arnynt yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod gorfodi yn cynnwys y canlynol—
(a) bod y penderfyniad wedi ei wneud ar sail camgymeriad ffeithiol;
(b) bod y penderfyniad yn anghywir o ran y gyfraith;
(c) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, bod swm y gosb yn afresymol;
(d) yn achos gofyniad heb fod yn ariannol yn ôl disgresiwn, bod natur y gofyniad yn afresymol;
(e) bod y penderfyniad yn afresymol am unrhyw reswm arall.

*Gofynion yn ôl disgresiwn: gorfodi*

6 (1) Caiff darpariaeth o dan baragraff 4 gynnwys darpariaeth i berson dalu cosb ariannol ("cosb am beidio â chydymffurfio") i awdurdod gorfodi os yw'r person yn methu â chydymffurfio â gofyniad heb fod yn ariannol yn ôl disgresiwn a osodir ar y person.

(2) Caiff darpariaeth o dan is-baragraff (1)—
(a) pennu swm y gosb am beidio â chydymffurfio neu ddarparu i'r swm hwnnw gael ei benderfynu yn unol â'r rheoliadau, neu
(b) darparu i'r swm gael ei benderfynu gan yr awdurdod gorfodi neu drwy rhyw ffordd arall.

(3) Os yw rheoliadau yn gwneud darpariaeth o fewn is-baragraff (2)(b), rhaid iddynt, mewn perthynas â phob math o fethiant y caniateir gosod cosb am beidio â chydymffurfio—
(a) pennu'r gosb uchaf y caniateir ei gosod am fethiant o'r math hwnnw, neu

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) darparu am benderfynu'r gosb uchaf honno yn unol â'r rheoliadau.

(4) Rhaid i ddarpariaeth o dan is-baragraff (1) sicrhau —

(a) bod y gosb am beidio â chydymffurfio yn cael ei gosod drwy hysbysiad a gyflwynir gan yr awdurdod gorfodi, a

(b) bod y person y gosodir hi arno yn cael apelio yn erbyn yr hysbysiad hwnnw.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol â pharagraff (b) o is-baragraff (4) sicrhau bod y seiliau y caniateir i berson apelio arnynt yn erbyn hysbysiad y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw yn cynnwys y canlynol—

(a) bod y penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad wedi ei seilio ar gamgymeriad ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir o ran y gyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol am unrhyw reswm (gan gynnwys, mewn achos pan benderfynwyd swm y gosb am beidio â chydymffurfio gan yr awdurdod gorfodi, bod y swm yn afresymol).

*Hysbysiadau stop*

7 (1) Caiff y rheoliadau roi i awdurdod gorfodi y pŵer i gyflwyno hysbysiad stop i berson.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon “hysbysiad stop” yw hysbysiad sy'n atal person rhag cyflawni gweithgaredd a bennir yn yr hysbysiad hyd nes i'r person gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Ni chaiff darpariaeth o dan y paragraff hwn ond rhoi'r cyfryw bŵer mewn perthynas ag achos sy'n dod o fewn is-baragraff (4) neu (5).

(4) Mae achos yn dod o fewn yr is-baragraff hwn pan fo—

(a) y person yn cyflawni'r gweithgaredd,

(b) yr awdurdod gorfodi yn credu'n rhesymol bod y gweithgaredd fel y'i cyflawnir gan y person hwnnw yn achosi, neu'n peri risg arwyddocaol o achosi, niwed difrifol i iechyd pobl, ac

(c) yr awdurdod gorfodi yn credu bod y gweithgaredd fel y'i cyflawnir gan y person hwnnw yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys toriad yn y rheoliadau a wneir o dan adran 14B gan y person hwnnw.

(5) Mae achos yn dod o fewn yr is-baragraff hwn pan fo'r awdurdod gorfodi yn credu'n rhesymol—

(a) bod y person yn debygol o gyflawni'r gweithgaredd,

(b) y bydd y gweithgaredd, o'i gyflawni yn y ffordd y mae'r person hwnnw yn debygol o'i gyflawni, yn achosi, neu'n peri risg arwyddocaol o achosi, niwed difrifol i iechyd pobl, ac

(c) y bydd y gweithgaredd, o'i gyflawni yn y ffordd y mae'r person hwnnw yn debygol o'i gyflawni yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys toriad yn y rheoliadau o dan adran 14B gan y person hwnnw.

(6) Rhaid i'r camau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2) fod yn gamau i ddileu neu leihau'r niwed neu'r risg o niwed y cyfeirir ato yn is-baragraff (4)(b) neu (5)(b).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

*Hysbysiadau stop: y weithdrefn*

8 (1) Rhaid i ddarpariaeth o dan baragraff 7 sicrhau'r canlyniadau yn is-baragraff (2) mewn achos pan fo hysbysiad stop yn cael ei gyflwyno.

(2) Dyma'r canlyniadau hynny—

(a) rhaid i'r hysbysiad stop gydymffurfio ag is-baragraff (3),

(b) caiff y person y cyflwynir ef iddo apelio yn erbyn y penderfyniad i'w gyflwyno,

(c) pan fo'r awdurdod gorfodi, ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno, yn fodlon bod y person wedi cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad, rhaid i'r awdurdod gorfodi ddyroddi tystysgrif i ardystio i'r perwyl hwnnw ("tystysgrif gwblhau"),

(d) mae'r hysbysiad yn peidio â bod yn effeithiol wrth i dystysgrif gwblhau gael ei dyroddi,

(e) caiff y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo wneud cais ar unrhyw bryd am dystysgrif gwblhau,

(f) rhaid i'r awdurdod gorfodi benderfynu p'un ai i ddyroddi tystysgrif gwblhau ai peidio a hynny cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl i'r cyfryw gais gael ei wneud, ac

(g) caiff y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â dyroddi tystysgrif gwblhau.

(3) I gydymffurfio â'r is-baragraff hwn rhaid i hysbysiad stop gynnwys gwybodaeth am—

(a) y seiliau dros gyflwyno'r hysbysiad,

(b) hawliau apelio, ac

(c) canlyniadau peidio â chydymffurfio.

(4) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (2)(b) sicrhau bod y seiliau y caiff person apelio arnynt yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod gorfodi i gyflwyno hysbysiad stop yn cynnwys y canlynol—

(a) bod y penderfyniad wedi ei wneud ar sail camgymeriad ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir o ran y gyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn afresymol;

(d) bod unrhyw gam a bennir yn yr hysbysiad yn afresymol;

(e) nad yw'r person wedi torri'r rheoliadau ac ni fyddai wedi eu torri pe na bai'r hysbysiad stop wedi ei gyflwyno;

(f) unrhyw seiliau eraill a bennir.

(5) Rhaid i ddarpariaeth yn unol ag is-baragraff (2)(g) sicrhau bod y seiliau y caniateir i berson apelio arnynt yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod gorfodi i beidio â dyroddi tystysgrif gwblhau yn cynnwys y canlynol—

(a) bod y penderfyniad wedi ei wneud ar sail camgymeriad ffeithiol;

(b) bod y penderfyniad yn anghywir o ran y gyfraith;

(c) bod y penderfyniad yn annheg neu'n afresymol.

*Hysbysiadau stop: digolledu*

9 (1) Rhaid i ddarpariaeth o dan baragraff 7 sy'n rhoi pŵer i awdurdod gorfodi i gyflwyno hysbysiad stop i berson gynnwys darpariaeth i'r awdurdod gorfodi ddigolledu'r person am y golled a ddioddefodd o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad.

(2) Caiff darpariaeth o dan is-baragraff (1) ddarparu am ddigollediad—

(a) mewn achosion rhagnodedig yn unig;

(b) mewn perthynas â disgrifiadau rhagnodedig o golled yn unig.

(3) Rhaid i ddarpariaeth o dan is-baragraff (1) sicrhau bod y person y cyflwynir yr hysbysiad stop iddo yn gallu apelio yn erbyn—

(a) penderfyniad gan y rheoleiddiwr i beidio â dyfarnu digollediad, neu

(b) penderfyniad gan y rheoleiddiwr ar swm y digollediad.

*Hysbysiadau stop: gorfodi*

10 (1) Rhaid i ddarpariaeth o dan baragraff 7 sy'n rhoi pŵer i awdurdod gorfodi i gyflwyno hysbysiad stop ddarparu, pan na fo person y cyflwynwyd hysbysiad iddo yn cydymffurfio ag ef, bod y person yn euog o dramgwydd ac yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu garchar am gyfnod nad yw'n **[**[F37]hwy na'r terfyn cyffredinol yn y llys ynadon (yng Nghymru a Lloegr)**]**, neu'r ddau, neu

(b) o'i gollfarnu ar ddtitiad, i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu ddirwy, neu'r ddau.

(2) Wrth gymhwyso'r adran hon mewn perthynas â thramgwydd a gyflawnwyd cyn **[**[F38]2 Mai 2022**]**, mae'r cyfeiriad yn is-baragraff (1)(a) at **[**[F39]y terfyn cyffredinol yn y llys ynadon (yng Nghymru a Lloegr)**]** i'w ddarllen fel cyfeiriad at chwe mis.

**Diwygiadau Testunol**

**F37** Geiriau yn Atod. A1 para. 10(1)(a) wedi eu hamnewid (7.2.2023 am 12.00 p.m.) gan The Judicial Review and Courts Act 2022 (Magistrates' Court Sentencing Powers) Regulations 2023 (O.S. 2023/149), rhlau. 1(2), **19(2)**

**F38** Geiriau yn Atod. A1 para. 10(2) wedi eu hamnewid (28.4.2022) gan The Criminal Justice Act 2003 (Commencement No. 33) and Sentencing Act 2020 (Commencement No. 2) Regulations 2022 (O.S. 2022/500), rhlau. 1(2), 5(3), **Atod. Rhn. 3**

**F39** Geiriau yn Atod. A1 para. 10(2) wedi eu hamnewid (7.2.2023 am 12.00 p.m.) gan The Judicial Review and Courts Act 2022 (Magistrates' Court Sentencing Powers) Regulations 2023 (O.S. 2023/149), rhlau. 1(2), **19(3)**

*Ymgymeriadau gorfodi*

11 (1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth—

(a) i alluogi awdurdod gorfodi i dderbyn ymgymeriad gorfodi oddi wrth berson mewn achos pan fo gan yr awdurdod gorfodi seiliau rhesymol dros amau bod y person wedi mynd yn groes i gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd mewn rheoliadau diogelwch, a

(b) bod i dderbyn yr ymgymeriad y canlyniadau yn is-baragraff (4).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(2) At ddibenion y Rhan hon, mae "ymgymeriad gorfodi" yn ymgymeriad i gymryd unrhyw gamau a bennir yn yr ymgymeriad yn cyfnod a bennir felly.

(3) Rhaid i'r camau a bennir mewn ymgymeriad gorfodi fod—

(a) yn gamau i sicrhau nad yw'r weithred o fynd yn groes i'r cyfyngiad neu'r gofyniad yn parhau nac yn digwydd eto, neu

(b) yn gamau o ddisgrifiad rhagnodedig.

(4) Y canlyniadau yn yr is-baragraff hwn yw, oni bai bod y person y derbynnir yr ymgymeriad oddi wrtho wedi methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad neu unrhyw ran ohono—

(a) ni chaniateir i'r person hwnnw gael ei gollfarnu o dramgwydd o dan reoliadau diogelwch mewn cysylltiad â'r weithred neu'r anwaith y mae'r ymgymeriad yn ymwneud â hi neu ag ef,

(b) ni chaiff yr awdurdod gorfodi osod unrhyw gosb ariannol benodedig ar y person hwnnw y byddai ganddo fel arall y pŵer i'w gosod yn rhinwedd paragraff 2 mewn cysylltiad â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw, ac

(c) ni chaiff yr awdurdod gorfodi osod unrhyw ofyniad yn ôl disgresiwn ar y person hwnnw y byddai ganddo fel arall y pŵer i'w osod yn rhinwedd paragraff 4 mewn cysylltiad â'r weithred honno neu'r anwaith hwnnw.

(5) Caiff y rheoliadau (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth—

(a) am y weithdrefn i wneud ymgymeriad;

(b) am delerau ymgymeriad;

(c) am gyhoeddi ymgymeriad gan awdurdod gorfodi;

(d) am amrywio ymgymeriad;

(e) am amgylchiadau pryd y caniateir ystyried bod person wedi cydymffurfio ag ymgymeriad;

(f) am fonitro cydymffurfiaeth ag ymgymeriad gan awdurdod gorfodi;

(g) am ardystio gan awdurdod gorfodi y bu cydymffurfio ag ymgymeriad;

(h) am apelau yn erbyn gwrthod rhoi'r cyfryw ardystiad;

(i) mewn achos pan fo person wedi rhoi gwybodaeth anghywir, gamarweiniol neu anghyflawn mewn perthynas â'r ymgymeriad, am i'r person hwnnw gael ei ystyried yn un nad yw wedi cydymffurfio ag ef;

(j) mewn achos pan fo person wedi cydymffurfio yn rhannol ond ddim yn llawn ag ymgymeriad, i'r gydymffurfiaeth rannol gael ei chymryd i ystyriaeth wrth osod unrhyw gosb droseddol neu gosb arall ar y person;

(k) at ddibenion galluogi cychwyn achos troseddol yn erbyn person mewn cysylltiad â mynd yn groes i'r gofyniad neu'r cyfyngiad os digwydd i ymgymeriad gael ei dorri neu i ran ohono gael ei thorri;

(l) i estyn unrhyw gyfnod pryd y caniateir cychwyn yr achos hwnnw ynddo.

*Cyfuno cosbau*

12 Ni chaniateir gwneud darpariaeth o dan y paragraffau a bennir mewn cofnod yng ngholofn 1 o'r tabl a ganlyn mewn perthynas â'r un math o doriad o reolau diogelwch oni bai bod yr amodau cyntaf a'r ail amodau a roddir yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofnau 2 a 3 yn cael eu bodloni.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

TABL

| **Colofn 1**<br>**Paragraffau o'r Atodlen hon** | **Colofn 2**<br>**Yr Amod Cyntaf** | **Colofn3**<br>**Yr Ail Amod** |
|---|---|---|
| Paragraffau 2 a 4 | Rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau na chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo gofyniad yn ôl disgresiwn wedi ei osod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad. | Rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau na chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 5(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo—<br>(a) cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad, neu<br>(b) y person wedi ei ryddhau ei hun o'i atebolrwydd i dalu cosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r toriad yn unol â pharagraff 3 (1)(b). |
| Paragraffau 2 a 7 | Rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau na chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo hysbysiad stop wedi ei gyflwyno mewn perthynas â'r un toriad. | Rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau na chaiff yr awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad stop i berson mewn perthynas â thoriad pan fo—<br>(a) cosb ariannol benodedig wedi ei gosod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad, neu<br>(b) y person wedi ei ryddhau ei hun o'i atebolrwydd i dalu cosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r toriad yn unol â pharagraff 3 (1)(b). |
| Paragraffau 4 a 7 | Rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau na chaiff yr awdurdod gorfodi | Rhaid i'r ddarpariaeth sicrhau na chaiff yr awdurdod gorfodi |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

| Colofn 1<br>Paragraffau o'r Atodlen hon | Colofn 2<br>Yr Amod Cyntaf | Colofn3<br>Yr Ail Amod |
|---|---|---|
| | gyflwyno hysbysiad o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 5(1)(a) i berson mewn perthynas â thoriad pan fo hysbysiad stop wedi ei gyflwyno mewn perthynas â'r un toriad. | gyflwyno hysbysiad stop i berson mewn perthynas â thoriad pan fo gofyniad yn ôl disgresiwn wedi ei osod ar y person hwnnw mewn perthynas â'r un toriad. |

*Cosbau ariannol*

13 (1) Os yw'r rheoliadau yn rhoi pŵer i awdurdod gorfodi i'w gwneud yn ofynnol i berson dalu cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy neu gosb am beidio â chydymffurfio o dan baragraff 6(1), cânt gynnwys darpariaeth—

(a) am ddisgowntiau talu'n gynnar;

(b) am dalu llog neu gosbau ariannol eraill am dalu'r gosb yn hwyr, a chyfanswm y llog hwnnw neu'r cosbau ariannol eraill hynny heb fod yn fwy na swm y gosb honno;

(c) am orfodi'r gosb.

(2) Caiff darpariaeth o dan is-baragraff (1)(c) gynnwys—

(a) darpariaeth i'r awdurdod gorfodi adennill y gosb, ac unrhyw log neu gosb ariannol arall am dalu'n hwyr, fel dyled sifil;

(b) darpariaeth i'r gosb, ac unrhyw log neu gosb ariannol arall am dalu'n hwyr fod yn adenilladwy, ar orchymyn llys, fel petai'n daladwy o dan orchymyn llys.

*Adennill costau*

14 (1) Caiff darpariaeth o dan baragraff 4 gynnwys darpariaeth i awdurdod gorfodi ei gwneud yn ofynnol, drwy hysbysiad, i berson y gosodir gofyniad yn ôl disgresiwn arno dalu'r costau yr aeth yr awdurdod gorfodi iddynt mewn perthynas â gosod y gofyniad yn ôl disgresiwn hyd at yr amser y gosodwyd ef.

(2) Yn is-baragraff (1), mae'r cyfeiriad at gostau yn cynnwys yn (ymhlith pethau eraill) —

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(3) Rhaid i ddarpariaeth o dan y paragraff hwn sicrhau, mewn unrhyw achos pryd y cyflwynir hysbysiad sy'n gwneud talu costau yn ofynnol—

(a) bod yr hysbysiad yn pennu'r swm sydd i'w dalu;

(b) y gellir ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gorfodi ddarparu dadansoddiad manwl o'r swm hwnnw;

(c) nad yw'r person y mae'n ofynnol iddo dalu costau yn atebol am dalu unrhyw gostau a ddangosir gan y person fel rhai yr aethpwyd iddynt yn ddiangen;

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(d) bod y person y mae'n ofynnol iddo dalu costau yn cael apelio yn erbyn—
(i) penderfyniad yr awdurdod gorfodi i osod y gofyniad i dalu costau;
(ii) penderfyniad yr awdurdod gorfodi am swm y costau hynny.

(4) Caiff darpariaeth o dan y paragraff hwn gynnwys y ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 13(1)(b) ac (c) a (2).

(5) Rhaid i ddarpariaeth o dan y paragraff hwn sicrhau ei bod yn ofynnol i'r awdurdod gorfodi gyhoeddi canllawiau am sut y bydd yr awdurdod gorfodi yn arfer y pŵer a roddir gan y ddarpariaeth.

*Apelau*

15 (1) Ni chaiff rheoliadau ddarparu am apelio ac eithrio i—
(a) y Tribiwnlys Haen Gyntaf, neu
(b) tribiwnlys arall a grëwyd o dan ddeddfiad (o fewn ystyr adran 14H(5)).

(2) Yn is-baragraff (1)(b) nid yw "tribiwnlys" yn cynnwys llys barn arferol.

(3) Os yw'r rheoliadau yn darparu am apêl mewn perthynas â gosod unrhyw ofyniad neu gyflwyniad unrhyw hysbysiad, cânt gynnwys—
(a) darpariaeth sy'n atal y gofyniad neu'r hysbysiad dros dro wrth aros i'r apêl ddod i ben;
(b) darpariaeth am bwerau'r tribiwnlys yr apelir iddo;
(c) darpariaeth am sut y mae adennill unrhyw swm sy'n daladwy yn unol â phenderfyniad gan y tribiwnlys hwnnw.

(4) Mae'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (3)(b) yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi i'r tribiwnlys yr apelir iddo bŵer—
(a) i dynnu'r gofyniad neu'r hysbysiad yn ôl;
(b) i gadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad;
(c) i gymryd y camau y gallai'r awdurdod gorfodi eu cymryd mewn perthynas â'r weithred neu'r anwaith sy'n arwain at y gofyniad neu'r hysbysiad;
(d) i anfon y penderfyniad ynghylch p'un ai i gadarnhau'r gofyniad neu'r hysbysiad ai peidio, neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwnnw, yn ôl i'r awdurdod gorfodi;
(e) i ddyfarnu costau.

*Cyhoeddusrwydd am osod cosbau sifil*

16 (1) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n galluogi awdurdod gorfodi i roi hysbysiad cyhoeddusrwydd i berson y gosodwyd cosb sifil arno yn unol â rheoliadau o dan yr Atodlen hon.

(2) Mae "hysbysiad cyhoeddusrwydd" yn hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person roi cyhoeddusrwydd—
(a) i'r ffaith bod y gosb sifil wedi ei gosod, a
(b) i unrhyw wybodaeth arall a bennir yn y rheoliadau,

mewn unrhyw ffordd a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Caiff y rheoliadau ddarparu i hysbysiad cyhoeddusrwydd—
(a) pennu amser i gydymffurfio â'r hysbysiad, a

(b) ei gwneud yn ofynnol i'r person y rhoddir ef iddo roi tystiolaeth i'r awdurdod gorfodi ei fod wedi cydymffurfio erbyn yr amser a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Caiff y rheoliadau ddarparu, os bydd person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio, bod awdurdod gorfodi yn cael—

(a) rhoi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth y mae'n ofynnol rhoi cyhoeddusrwydd iddi gan yr hysbysiad, a

(b) adennill costau gwneud hynny oddi wrth y person hwnnw.

*Personau sy'n agored i gosbau sifil*

17 Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth am y personau sy'n agored i gosbau sifil o dan yr Atodlen hon a chânt (ymhlith pethau eraill) ddarparu—

(a) i swyddogion corff corfforaethol fod yn atebol yn ogystal â'r corff corfforaethol ei hun, a

(b) i bartneriaid partneriaeth fod yn atebol yn ogystal â'r bartneriaeth ei hun,

yn yr amgylchiadau a bennir.

*Canllawiau ynghylch defnyddio cosbau sifil*

18 (1) Pan fo pŵer yn cael ei roi i awdurdod gorfodi gan y rheoliadau i osod cosb sifil mewn perthynas â thoriad o reoliadau o dan yr Atodlen hon, rhaid i'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer sicrhau bod—

(a) rhaid i'r awdurdod gorfodi gyhoeddi canllawiau am ddefnydd yr awdurdod gorfodi o'r gosb sifil,

(b) rhaid i'r canllawiau gynnwys yr wybodaeth berthnasol,

(c) rhaid i'r awdurdod gorfodi adolygu'r canllawiau pan fo hynny'n briodol,

(d) rhaid i'r awdurdod gorfodi ymgynghori â'r bobl a bennir yn y ddarpariaeth cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau neu ganllawiau wedi eu hadolygu, ac

(e) rhaid i'r awdurdod gorfodi roi sylw i'r canllawiau neu i'r canllawiau wedi eu hadolygu wrth arfer swyddogaethau'r awdurdod gorfodi.

(2) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â chosb ariannol benodedig, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati yn is-baragraff (1)(b) yw gwybodaeth am—

(a) yr amgylchiadau pryd y mae'r gosb yn debygol o gael ei gosod,

(b) yr amgylchiadau pryd na chaniateir gosod y gosb,

(c) swm y gosb,

(d) sut y caniateir i berson ei ryddhau ei hun o'r gosb ac effaith y rhyddhad hwnnw, ac

(e) hawliau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau apelio.

(3) Yn achos canllawiau sy'n ymwneud â gofyniad yn ôl disgresiwn, yr wybodaeth berthnasol y cyfeirir ati yn is-baragraff (1)(b) yw gwybodaeth am—

(a) yr amgylchiadau pryd y mae'r gofyniad yn debygol o gael ei osod,

(b) yr amgylchiadau pryd na chaniateir gosod y gofyniad,

(c) yn achos cosb ariannol amrywiadwy, y materion y mae'n debygol y cânt eu cymryd i ystyriaeth gan yr awdurdod gorfodi wrth benderfynu swm y gosb (gan gynnwys, pan fo hynny'n berthnasol, unrhyw ddisgownt am adrodd yn wirfoddol am fethu â chydymffurfio), a

(d) hawliau i gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau a hawliau apelio.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

*Cyhoeddi camau gorfodi*

19 (1) Pan fo pŵer yn cael ei roi i awdurdod gorfodi gan y rheoliadau i osod cosb sifil mewn perthynas â thorri rheoliadau diogelwch, rhaid i'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer, yn ddarostyngedig i'r paragraff hwn, sicrhau bod rhaid i'r awdurdod gorfodi gyhoeddi adroddiadau o bryd i'w gilydd sy'n pennu—

(a) yr achosion pryd y gosodwyd y gosb sifil, a

(b) pan fo'r gosb yn gosb ariannol benodedig, yr achosion pryd y rhyddhawyd yr atebolrwydd i dalu'r gosb yn unol â pharagraff 3(1)(b).

(2) Yn is-baragraff (1)(a), nid yw'r cyfeiriad at achosion pryd y gosodwyd y gosb sifil yn cynnwys achosion pan fo'r gosb sifil wedi ei gosod ond wedi ei gwrthdroi ar apêl.

(3) Nid oes angen i'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer sicrhau'r canlyniad yn is-baragraff (1) mewn achosion pan fo'r awdurdod perthnasol yn ystyried y byddai'n anaddas i wneud hynny.

*Cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddiol*

20 Rhaid i awdurdod gorfodi weithredu yn unol â'r egwyddorion a ganlyn—

(a) dylai gweithgareddau rheoleiddiol gael eu cyflawni mewn ffordd sy'n dryloyw, atebol, cymesur a chyson;

(b) dim ond at achosion pryd y mae angen camau gweithredu y dylid targedu gweithgareddau rheoleiddiol.

*Adolygu*

21 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru yn unol â'r paragraff hwn adolygu gweithrediad unrhyw ddarpariaeth a wnaed ganddynt i roi pŵer i awdurdod gorfodi (gan eu cynnwys hwy eu hunain) osod cosb sifil mewn perthynas â thorri rheoliadau diogelwch.

(2) Rhaid i'r adolygiad ddigwydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau ar y diwrnod pryd y daw'r ddarpariaeth i rym.

(3) Rhaid i'r adolygiad ystyried yn benodol a yw'r ddarpariaeth wedi rhoi ei hamcanion ar waith yn effeithlon ac yn effeithiol.

(4) Wth gynnal adolygiad o dan y paragraff hwn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau y mae'n briodol yn eu barn hwy i ymgynghori â hwy.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canlyniadau adolygiad o dan y paragraff hwn.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o adolygiad o dan y paragraff hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

*Atal dros dro*

22 (1) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud darpariaeth sy'n rhoi pŵer i awdurdod gorfodi heblaw hwy eu hunain i osod cosb sifil mewn perthynas â thorri rheoliadau diogelwch, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod gorfodi—

(a) pan fo'r pŵer yn bŵer i osod cosb ariannol benodedig, i beidio â chyflwyno unrhyw hysbysiad pellach o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 3(1)(a) mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw;

(b) pan fo'r pŵer yn bŵer i osod gofyniad yn ôl disgresiwn, i beidio â chyflwyno unrhyw hysbysiad pellach o fwriad y cyfeirir ato ym mharagraff 5(1)(a) mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw;

(c) pan fo'r pŵer yn bŵer i osod hysbysiad stop, i beidio â chyflwyno unrhyw hysbysiadau stop pellach mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw;

(d) pan fo'r pŵer yn bŵer i dderbyn ymgymeriad gorfodi, i beidio â derbyn unrhyw ymgymeriad pellach mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw.

(2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond roi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (1) mewn perthynas â thorri rheoliadau diogelwch os ydynt wedi eu bodloni bod yr awdurdod gorfodi wedi methu ar fwy nag un achlysur—

(a) â chydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodir arno o dan yr Atodlen hon neu yn ei rhinwedd mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw,

(b) â gweithredu yn unol â'r canllawiau a gyhoeddodd o dan baragraff 18 mewn perthynas â thoriad o'r math hwnnw, neu

(c) â gweithredu yn unol â'r egwyddorion y cyfeirir atynt ym mharagraff 20 neu egwyddorion eraill o arferion gorau mewn perthynas â gorfodi'r gyfraith o ran toriad o'r math hwnnw.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd ddirymu cyfarwyddyd a roddir ganddynt o dan is-baragraff (1) os ydynt wedi eu bodloni bod yr awdurdod gorfodi wedi cymryd y camau priodol i unioni'r methiant yr oedd y cyfarwyddyd yn ymwneud ag ef.

(4) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-baragraff (1) neu (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori—

(a) â'r awdurdod gorfodi, a

(b) ag unrhyw bersonau eraill y mae'n briodol ymgynghori â hwy yn eu barn hwy.

(5) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid iddynt osod copi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod gorfodi—

(a) cyhoeddi'r cyfarwyddyd mewn ffordd sy'n briodol yn marn Gweinidogion Cymru, a

(b) cymryd unrhyw gamau eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod gorfodi neu y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud yn ofynnol er mwyn dwyn y cyfarwyddyd at sylw personau eraill y mae'n debygol y bydd yn effeithio arnynt.

*Talu cosbau i Gronfa Gyfunol Cymru*

23 Pan fo awdurdod gorfodi heblaw Gweinidogion Cymru, yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan yr Atodlen hon, yn cael—

(a) cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy neu gosb am beidio â chydymffurfio,

(b) unrhyw log neu gosb ariannol arall am dalu'r cyfryw gosb yn hwyr, neu

(c) swm a delir er mwyn i berson ei ryddhau ei hun o'r atebolrwydd i dalu cosb ariannol benodedig,

rhaid i'r awdurdod gorfodi ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru.**]**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## ATODLEN 1

*(a gyflwynir gan adran 25)*

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 (p.14)*

1 Yn adran 46 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 (teithwyr sy'n talu pris tocyn ar fysiau ysgol), yn is-adran (3), yn y diffiniad o "free school transport"—

(a) ym mharagraff (a) hepgorer "section 509(1) or (1A)";

(b) hepgorer "or" ar ddiwedd paragraff (aa);

(c) ar ôl paragraff (aa) mewnosoder—

"(ab) in pursuance of arrangements under sections 3 or 4 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, or".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I66** Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I67** Atod. 1 para. 1 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

*Deddf Trafnidiaeth 1985 (p.67)*

2 (1) Diwygir adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (cofrestru gwasanaethau lleol) fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1B)—

(a) hepgorer "section 509(1) or (1A)," ym mharagraff (a);

(b) hepgorer "or" ar ddiwedd paragraff (b);

(c) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(d) the obligation placed on a local authority by sections 3 or 4 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008; or

(e) the exercise of the power of a local authority under section 6 of that Measure."

(3) Yn is-adran (1C)(a), yn lle "or (c)" rhodder ", (c), (d) or (e)".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I68** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I69** Atod. 1 para. 2(1)(2)(a)(2)(b) mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

**I70** Atod. 1 para. 2(2)(c)(3) mewn grym ar 6.3.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**

**I71** Atod. 1 para. 2(2)(c)(3) mewn grym ar 1.9.2009 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

*Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 (p.13)*

3 (1) Diwygir adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)(b) ar ôl "any Act" mewnosoder "or any Measure of the National Assembly for Wales".

(3) Yn is-adran (2)(c) ar ôl "any Act" mewnosoder "or any Measure of the National Assembly for Wales".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I72** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I73** Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

*Deddf Addysg 1996 (p.56)*

4 (1) Diwygir Deddf Addysg 1996 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 509AA (darparu cludiant ar gyfer personau o oedran chweched dosbarth)—

(a) yn is-adran (1) ar ôl "authority" mewnosoder "in England";

(b) yn is-adran (2)(d) hepgorer "or the National Assembly for Wales";

(c) yn is-adran (9) yn lle "appropriate authority may, if it" rhodder "Secretary of State may, if he";

(d) hepgorer is-adran (9A);

(e) yn is-adran (10) hepgorer y geiriau "(in relation to local education authorities in England) or the National Assembly for Wales (in relation to local education authorities in Wales)".

(3) Yn adran 509AB (darpariaeth bellach ynghylch datganiadau polisi cludiant)—

(a) hepgorer is-adran (4);

(b) yn is-adran (5), yn lle'r geiriau o "under this section" i'r diwedd rhodder "under this section by the Learning and Skills Council for England.";

(c) yn is-adran (6)—

(i) ym mharagraff (c) hepgorer "(in the case of a local education authority in England)";

(ii) ym mharagraff (d) hepgorer y geiriau ar ôl "England" i ddiwedd y paragraff hwnnw y tro cyntaf y mae'r gair hwnnw'n ymddangos.

(4) Yn adran 509AC (dehongli adrannau 509AA a 509AB)—

(a) hepgorer is-adran (3);

(b) yn is-adran (6) hepgorer y geiriau ar ôl "subsection (5)" i ddiwedd yr is-adran honno;

(c) hepgorer is-adran (7).

(5) Yn adran 509A (trefniadau teithio i blant sy'n cael addysg blynyddoedd cynnar ac eithrio mewn ysgol)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "authority" mewnosoder "in England";

(b) yn is-adran (4A), ar ôl "Regulations" mewnosoder "made by the Secretary of State";

(c) yn is-adran (5) (fel y mae wedi ei hamnewid gan baragraff 23 o Atodlen 2 i Ddeddf Gofal Plant 2006 (p.21)), hepgorer "in relation to England," a pharagraff (b).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I74** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I75** Atod. 1 para. 4(1)-(4) mewn grym ar 6.3.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**
**I76** Atod. 1 para. 4(5) mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

*Deddf Gofal Plant 2006 (p.21)*

5 Yn adran 110(5)(a) o Ddeddf Gofal Plant 2006, yn lle "20 to 24" rhodder "20 to 22, 24".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I77** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I78** Atod. 1 para. 5 mewn grym ar 1.9.2009 gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**

## ATODLEN 2

*(cyflwynir gan adran 26)*

## DIDDYMIADAU

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I79** Atod. 2 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 28(2)**
**I80** Atod. 2 mewn grym ar 6.3.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(1), **Atod. Rhn. 1**
**I81** Atod. 2 mewn grym ar 1.9.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/371, ergl. 2(2), **Atod. Rhn. 2**
**I82** Atod. 2 mewn grym ar 30.10.2009 at ddibenion penodedig gan O.S. 2009/2819, **ergl. 2(1)(d)**

| *Enw byr a phennod* | *Graddau'r diddymiad* |
|---|---|
| Deddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981 (p.14) | Yn adran 46(3)(a) y geiriau "section 509(1) or (1A)". |
| Deddf Trafnidiaeth 1985 (p.67) | Yn adran 6(1B) y geiriau "section 509(1) or (1A)" ym mharagraff (a) a'r gair "or" ym mharagraff (b). |
| Deddf Addysg 1996 (p.56) | Yn adran 444(5) y geiriau "and (4)". |
| | Yn adran 455, yn is-adran (1)(c) y geiriau "or 509(2)" ac yn is-adran (2)(b) "or" ar ddiwedd yr is-adran. |
| | Adran 509. |
| | Yn adran 509AA, yn is-adran (2)(d) y geiriau "or the National Assembly for Wales", is-adran (9A), ac yn is-adran (10) y geiriau "(in relation to local education authorities in England) or the National Assembly for Wales (in relation to local education authorities in Wales)". |
| | Yn adran 509AB, is-adran (4), yn is-adran (6)(c) y geiriau "(in the case of a local education authority in England)", yn is-adran |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:** *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

| *Enw byr a phennod* | *Graddau'r diddymiad* |
|---|---|
| | (6)(d) y geiriau ar ôl "England" i ddiwedd yr is-adran honno y tro cyntaf y mae'r gair hwnnw'n ymddangos. |
| | Yn adran 509AC, is-adran (3), yn is-adran (6) y geiriau ar ôl "subsection (5)" i ddiwedd yr is-adran, is-adran (7). |
| | Yn adran 509A, yn is-adran (5), y geiriau "in relation to England," a pharagraff (b). |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31) | Atodlen 30, paragraff 133. |
| Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21) | Atodlen 9, paragraff 59. |
| Deddf Addysg 2002 (p.32) | Atodlen 19, paragraff 2. |
| | Atodlen 21, paragraff 51. |
| Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40) | Adran 83, is-adran (1), yn is-adran (2) y geiriau ar ôl "England" i ddiwedd yr is-adran honno y tro cyntaf y mae'r gair yn ymddangos, ac is-adran (3). |
| | Atodlen 10, paragraffau 4 a 5(b). |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 19 Mawrth 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– s. 1(4)(g) words substituted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 23(2)
– s. 7(1)(b)(ii) words inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 23(3)(a)
– s. 24(1) words omitted by 2013 anaw 1 Sch. 5 para. 25(2)
– Sch. A1 para. 10(2) words substituted by 2020 c. 17 Sch. 24 para. 443(1)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– s. 7(3)(a)(ai) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 23(3)(b)